

ECO'R WYDDFA


Rhif 217

TACHWEDD 1995

Pris 25c



CODI ARIAN



Cafodd gŵr o Fethel gydnabyddiaeth yn ddiweddar am ei waith diflino dros wahanol achosion da. Bu Maldwyn Hughes yn brysur dros y blynyddoedd yn casglu arian yn y pentref at wahanol elusennau, yn enwedig rhai yn ymwneud ag ymchwil cancr. Mae ef a'i fam, Mrs Mary Hughes, wedi cefnogi ymchwil cancr gan i'w ddiweddar dad ddioddef o'r afiechyd hwnnw. Mae Maldwyn yn dal cysylltiad agos â'r Ward Macmillan yn Ysbyty Bryn Seiont. Cyflwynodd cangen Caernarfon o bwyllgor cefnogi'r gwasanaeth Macmillan fedal iddo'n ddiweddar i gydnabod ei ymdrechion i godi arian at y gwaith.

Gartref ym Methel, mae Maldwyn yn gysylltiedig â'r nosweithiau cwis a gynhelir yn Y Bedol. Mae wedi casglu arian yn ystod y nosweithiau hyn ers blynyddoedd. Erbyn hyn mae'r noson gwis wedi codi oddeutu £1,500 at achosion lleol, ac mae llawer o'r diolch i Maldwyn.

Cafodd Maldwyn gydnabyddiaeth yn ddiweddar hefyd am ei ffyddlondeb i'r Gwasanaeth Trallwys Gwaed. Derbyniodd dystysgrif i nodi'r ffaith iddo dros y blynyddoedd roi 50 peint o waed yn sesiynau'r Gwasanaeth.

CODI STIWDIO



Bydd Stiwdio Capel Mawr Llanrug yn cael ei hagar yn swyddogol gan Mr Dafydd Wigley, A.S., fore Sadwrn, 4 Tachwedd 1995.

Prynwyd y capel gan Dyfan ac Angela Roberts, cyfarwyddwyr cwmni Llun y Felin, ac aethpwyd ati i'w addasu yn stiwdio. Yn y cyfarfod gobeithir cael anerchiadau hefyd gan Mr Huw Jones, Pennaeth S4C, a Mr Dafydd Whiteside Thomas

a fydd yn cynrychioli'r Cyngor Cymunedol. Ceir eitemau gan blant Ysgol Gynradd Llanrug a Seindorf Arian Llanrug.

Gobaith Angela a Dyfan Roberts yw y bydd nifer helaeth o drigolion y fro yn derbyn eu gwahoddiad i ddod draw am 2 o'r gloch y prynhawn hwnnw i weld y Capel Mawr ar ei newydd wedd.

(Gweler hefyd tudalen 3)

CODI STÊM yn ras hwyl Antur Waunfawr fu'r tair merch yma: Esyllt Dafydd (3ydd), Elin Harding (1af), a Diane Jones (2il). Gweler hefyd tudalennau 10 ac 20.

CODI PÊL

Nos Fercher, 11 Hydref, gwiredwyd breuddwyd aml blentyn gan fachgen ifanc o Lanberis. Bu Rheon Roberts, Arlys, Stryd y Ffynnon, sy'n aelod o dîm pêl-droed dan 15 oed Llanberis, yn ffodus i gael bod yn un o'r codwyr peli (ball boys) yn y gêm bêl-droed fawr rhwng Cymru a'r Almaen yn y Stadiwm Cenedlaethol yng Nghaerdydd.

Dewiswyd deuddeg o fechgyn o Ogledd Cymru i wneud y gwaith, ac yr oedd Rheon yn un o ddau yn cynrychioli Cynghair Gwyrfai y noson honno.

Uchafbwynt y diwrnod iddo oedd cael cerdded allan i'r cae a phrofi'r awyrgylch wefreiddiol yn y Stadiwm. Ac roedd gweld Kit Symonds, un o'i arwyr o'i hoff dîm, Manchester City, yn sgorio gôl Cymru yn coroni'r noson iddo. Yr unig beth siomedig oedd bod Cymru wedi colli'r gêm o drwch blewyn.



Yn y llun gwelir Rheon gyda phêl a lofnodwyd gan rai o'r chwaraewyr, a phenant a roddwyd gan dîm yr Almaen i bob un o'r bechgyn. Bydd Rheon yn siŵr o drysori'r rhain gan eu bod wedi eu harwyddo gan un o bêldroedwyr enwoca'r byd, Jurgen Klinsman.

ECO'R WYDDFA

Rhif 217
TACHWEDD 1995

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

GOLYGYDDOL
IWAN ROBERTS
LLEIFIOR, LLANRUG
Ffôn: (01286) 675649
JOHN PRITCHARD
CILFYNYDD, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872390

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

DYDDIADUR Y MIS

Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi,
Deiniolen (870394)

FFOTOGRAFFWR

Gwynndaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

DATBLYGU LLUNIAU

Bryn Jones, Elidir, Allt Dewi,
Bangor (01248) 353337 neu
871925

TREFNYDD HYSBYSEBION

John Roberts, Bedw Gwynion,
Llanrug (675605)

TREFNYDD BWNDELU

Ann Gibbins, Llodj Plas Tirion,
Pontrug (673696)

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST

Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon
Bach, Llanrug (650200)

TREFNYDD PLYGU

Shioned Griffith (650570)

GOHEBWYR PENTREFI

Dyma'r bobl i gysylltu â nhw
yn eich ardaloedd.

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248 670726)

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys
Roberts-Williams, Godre'r Coed
(870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan,
Bryn Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DEINIOLLEN: W. O. Williams,
6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)

DINORWIG: Glyn Tomos, Pen y
Bwlch, Dinorwig (870576)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Becws Eryri (870491)
LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn
Moelyn (675384)

NANT PERIS: Elwyn Searell Jones,
Dwyfor (870440)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth (872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, TACHWEDD 30
Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS LUN, TACHWEDD 20
Os gwelwch yn dda

DYDDIAU A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr, Ffôn: 650570

RHIFYN	DYDDIAD PLYGU	BLE?	CYSYLLTU Â	RHIF FFÔN
RHAGFYR	TACHWEDD 30	CAEATHRO	Mr Clive James	677438

Diolch i'r cysylltwyr am eu cefnogaeth.

MAE CAMERÂU YR ECO AR GAEL GAN Y CANLYNOL:

BETHEL: Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl (0248) 670115

WAUNFAWR: Heulwen Huws, Argoed (850556)

DEINIOLLEN:

LLANBERIS: John Pritchard, Cilfynydd (872390)

Llythyrau

Plant a Phobol Ifanc Capel Mawr Llanrug 1933-1956

Annwyl Olygydd,

Os bydd gennych le yn eich papur
bro difyr — a ddarllenaf gydag awch
bob mis — a fuasech yn cynnwys yr
ychydig eiriau a ganlyn:

Byddai'n ddifyr gwybod ble mae y
plant a'r aelodau ifanc a fynychai'r
Capel Mawr yn ystod y cyfnod 1933
hyd 1956 dan arweiniad trwyadl a
chadarn ein gweinidog, y diweddar
Barchedig E. Goronwy Williams,
B.A., a'r rhai ffyddlon o blith
aelodau'r capel a'i cynorthwya'i ar y
Sul fel athrawon Ysgol Sul, ac ar
noson waith yn y Gobeithlu neu'r
Band of Hope chwedl ninnau!

Gallwn arall-eirio'r cwpled a welir
am Gwilym T. Jones ar fur y Capel
Newydd yn Llŷn — yr un am Capel
Mawr:

Os caewyd erys capel
Eto'n fyw ynom ni.

Cafwyd asiad hyfryd ac esmwyth
rhwng capeli Presbyteriaidd y fro yng
Nghapel y Rhos, yn hen adeilad
Capel Pontrhythallt. Hyfryd yw sylwi
ar y nifer helaeth o blant afieithus a
brwd sy'n dod i'r Ysgol Sul a'r tîm
ymroddgar o athrawon.

Byddai'n ddiddorol cael atgofion
rhai o'r aelodau am Ysgol Sul,
Gobeithlu ac Eisteddfod Capel Mawr
(a barai am bedair noson) yn y
cyfnod hwnnw. Beth am anfon rhyw
bytiau i'r Eco da ei flas? Rwy'n siŵr
y byddai'n ddifyr eu darllen gan rhoi
gwybod inni ble mae'r hen blant
hynny erbyn hyn (ydi, mae'r

ansoddair 'hen' yn addas erbyn
hyn!).

Byddaf yn gweld nifer ohonynt o
dro i dro a chael sgwrs felys, ond
mae llawer mwy na welais hwy ar ôl
1956. Un ohonynt y caraf ei henwi
yw Eirlys Williams, a fu'n byw yng
Nghefn Elan, cartef Mr John Evan
Jones a fu'n gefn i ganiadaeth y
cysegr yn y Capel Mawr.

Mawr ddiolch am ddarllen y llyth.

Yn gywir iawn,

MORFUDD ENREST JONES (Mrs)
Gwyrfa, Llangefni, Môn

Chwilio am Straeon Caru

Annwyl Olygydd,

Mae BBC Cymru yn paratoi cyfres o
raglenni Cymraeg i'w darlledu ar S4C
ar noson Santes Dwynwen, 25
Ionawr 1996. Bydd y noson yn
dathlu cariad yng Nghymru'r
1990au, ac yn cynnwys gwledd o
eitemau rhamantus, straeon caru,
cerddoriaeth, ac ymweliad â rhai o'r
mannau mwyaf rhamantus yng
Nghymru.

Tybed a oes gan rai o'ch darllen-
wyr chi stori garu yr hoffon nhw ei
rhannu gyda gweddill y genedl?

Rydym ni'n chwilio am bobl o bob
oed sydd â stori garu anghyffredin
i'w hadrodd. Sut wnaethoch chi
gwrdd â'ch cariad, ac a lwyddodd
eich cariad i orchfygu pawb a
phopeth? Efallai y bydd ambell un
wedi cwrdd â milwr Americanaidd
adeg y rhyfel, wedi symud i fyw i
wlad arall er mwyn bod gyda'u
cariad. Mae'r rhaglen hefyd yn
chwilio am y briodas fwyaf hir-
hoedlog yng Nghymru.

Mae cyfle hefyd i gyfrannu
gyda'ch dewis o'ch hoff
gerddoriaeth ramantus, neu
awgrymu lleoliad sydd ag iddo

gysylltiadau rhamantus yn eich ardal
chi.

Os hoffech chi cymryd rhan, neu
gyfrannu at y rhaglenni cysylltwch
â ni yn BBC Cymru, rhif ffôn:
(01222) 572745 cyn gynted â
phosib.

Gyda diolch,

CRIS DAFIS (Cynhyrchydd)

Adran y Celfyddydau a Cherdd
BBC Cymru
Llandaf, Caerdydd CF5 2YQ.

ANTUR WAUNFAWR

Annwyl Olygydd,

Buaswn yn ddiolchgar iawn pe bai
eich papur yn tynnu sylw at
gystadleuaeth newydd Antur
Waunfawr i ddylunio logo newydd ar
gyfer ein llenyddiaeth. Bydd gwobr
o £50, ac fe fydd y gystadleuaeth yn
rhedeg ar y cyd â Rhaglen Hywel
Gwynfryn ar Radio Cymru.

Ail-adeiladu oedd ein gwaith
ddeng mlynedd yn ôl. Mae ein
pwyslais yn awr yn mynd fwy-fwy
ar warchod a gwella'r amgylchedd.
Cychwynnwyd gwasanaeth ail-
gylchu — sy'n hynol lwyddiannus,
ac mae gwaith ar ein Parc Natur yn
symud ymlaen yn gyflym gyda'r
gobaith ei agor yn swyddogol ymhen
rhyw chwech neu wyth mis.

Mae'r elfen o bontio gwahan-
iaethau rhwng pobl a'u gilydd trwy
gyd-wasanaethu yn cael lle amlwg
yn ein athroniaeth.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch
a Swyddfa Antur Waunfawr ar
(01286) 650721 neu gyrrwch eich
ceisiadau i ni erbyn 30 Tachwedd, i'r
cyfeiriad isod.

Yn gywir,

MENNA JONES (Prif Weithredwraig)
Antur Waunfawr
Bryn Pistyll
Waunfawr, Caernarfon

THEATR BARA CAWS yn cyflwyno
DWY DDRAMA GAN W. S. JONES (Wil Sam)

Y WRAIG BOBI a SAMI

Actorion:

Maldwyn John, Merfyn Jones, Mari Rowland Hughes,
John Pierce Jones a Mirain Haf Roberts
Cyfarwyddwr: Valmai Jones

YN YSGOL BRYNREFAIL, LLANRUG
NOS FERCHER, 22 TACHWEDD am 7.30

Tocynnau: Olwen Llywelyn (01286) 650200

Beth am ddod i gystadlu i

EISTEDDFOD

DYFFRYN OGWEN

Neu beth am ddod
i fwynhau'r wledd yn

YSGOL DYFFRYN OGWEN

Sadwrn, 18 Tachwedd 1995
am 10 a 6 o'r gloch

Arddangosfa Celf a Chrefft a
lluniaeth ysgafn
yn ffreutur yr Ysgol

Am fwy o fanylion ffoniwch
(01248) 600423

Llun y Felin yn y Capel Mawr Colli swyddi . . . ac adeilad



Mae i Capel Mawr, Llanrug, hanes diddorol ac eithaf cythryblus. Yn ôl y diweddar Barchedig J. Eiddon Jones: *'Dechruwyd y pregethu a sefydlwyd y "Society" fel y'i gelwid yn Nholl Clawdd Llanrug oddeutu y flwyddyn 1783 ac yno y cariwyd yr achos crefyddol ymlaen am 15 mlynedd hyd nes yr adeiladwyd y capel cyntaf yn y flwyddyn 1798.'* Anodd iawn oedd cael llcyn i adeiladu capel ar y pryd gan fod cymaint o ddrwg-deimlad ac atgasedd tuag at y Methodistiaid yn nodweddu'r cyfnod, gan gynnwys tiffeddiannwyr. Doedd dim dewis ganddynt ond i adeiladu eu capel ar y cytir (*common land*).

'... Nid oedd yno gloddiau na ffyrdd, dim ond llwybrau yma ac acw. Dewiswyd lle yr oedd y llwybrau o Sarn y Cwawiau a Phont Rhyddallt yn cyd gyfarfod ac yn ymuno i fyned at Bencefn. Nid oedd y ffordd bresennol i Lanberis wedi ei gwneud y pryd hwnnw, ond dichon fod yno lwybr i'r cyfeiriad.' Ac yn y fan hon, yn ôl J. Eiddon Jones, y dechreuwyd adeiladu. Er yr holl fygythiadau i ddymchwel yr adeilad, llwyddo i gwblhau'r gwaith wnaeth yr hen grefyddwyr ac agorwyd drysau'r capel cyntaf yn 1798.

Capel bychan iawn oedd Capel y Rhos, fel y'i gelwid weithiau, ond yn anffodus nid oes mesuriadau'n bodoli.

Parhawyd i addoli yno am 24 mlynedd cyn adeiladu ail gapel ar y safle yn 1822. Yr oedd hwn yn llawer helaethach capel gan fod nifer yr addolwyr wedi cynyddu'n sylweddol. Yn wir, yn 1842, bu'n rhaid cael trydydd capel. Adeiladwyd y capel *'lled brydferth hwn'* a'r tŷ capel am y cyfanswm o £631.

Yn dilyn Diwygiad Mawr 1859-60 aeth llywodraeth i fyny drachefn a bu'n rhaid adeiladu capel newydd unwaith yn rhagor ar y safle, yn 1868. Hwn oedd y pedwerydd capel o fewn deng mlynedd a thrigain! Gwnaed ef i eistedd 720 am y gost o £2,229.7s.5c., ynghyd â'r £502 oedd yn ddyledus o'r hen gapel.

Ym mis Medi 1994, dros ganrif yn ddiweddarach, caewyd drysau y Capel Mawr gyda chryn siom a thristwch i nifer fawr o drigolion y fro. Rhoddwyd yr adeilad ar werth a bu cryn ddyfalu, a phoeni, parthed pwy fyddai'n berchenogion newydd, a beth fyddai ei dynged.

Lliniarwyd cryn dipyn ar yr ofnau pan ddeallwyd mai yr actor Dyfan Roberts a'i wraig Angela, fel cyfarwyddwyr cwmni Llun y Felin, oedd y perchenogion newydd. Er fod defnyddioldeb y Capel Mawr i gael ei arall-gyfeirio llonwyd calonnau y mwyafrif a oedd yn ddrwgdybus gan fod yr adeilad i



Ers rhai misoedd bu dyfalu ynglŷn â dyfodol adeilad Amgueddfa Eryri. Erbyn hyn mae Cwmni'r Grid Cenedlaethol wedi prynu'r adeilad oddi wrth yr Amgueddfa Genedlaethol, â'r Amgueddfa yn bwriadu buddsoddi arian i ddatblygu'r Amgueddfa Lechi. Gobeithio y bydd swyddi newydd yn cael eu creu yn y fan honno, gan fod cau Amgueddfa Eryri yn golygu colli pump o swyddi gwerthfawr. Mae'n rhyfedd y newid a ddigwyddodd mewn amser byr. Ddeunaw mis yn ôl, tra'n dathlu pen-blwydd Gorsaf Drydan Dinorwig yn ddeg oed, roedd penaethiaid y Grid a'r Amgueddfa yn cyhoeddi dechrau cyfnod llewyrchus newydd yn y bartneriaeth rhyngddynt o fewn yr adeilad hardd hwn. Yna, pan ddechreuwyd sôn am gau'r Amgueddfa, un o'r rhesymau a roddwyd oedd bod y Grid Cenedlaethol yn bwriadu tynnu 'nôl o'r bartneriaeth gan ei gwneud yn anodd i'r Amgueddfa gynnal yr adeilad ei hunan. Erbyn hyn, wrth gwrs, mae'r Grid, nad oedd am rannu'r adeilad, wedi penderfynu ei brynu. Gan fod yr adeilad wedi ei godi gan yr hen Fwrdd Canolog Cynhyrchu Trydan fel iawndal i'r ardal am yr anhwylostod a achoswyd gan adeiladu'r Orsaf Drydan, mae'n naturiol bod llawer yn gofyn beth yn union sydd gennym o ddefnydd i bobol Llanberis erbyn hyn?

aros a chael ei ddefnyddio er budd a lles gwylywyr teledu ifanc Cymru.

Mynnodd Dyfan ac Angela barchu'r gorffennol drwy gadw'r adeilad yn ei ffurf wreiddiol gan newid cyn lleied a phosibl ar y tu allan. Mynnodd y ddau hefyd ad-drefnu'r tu mewn mewn modd sensitif a fyddai'n nodweddu'r gorffennol gan newid ei ddefnyddioldeb i fod yn stiwdio deledu ynghyd â swyddfeydd, ystafelloedd cynllunio, newid a choluro. Cadwyd sawl nodwedd gain a berthynai i'r hen gapel gan gynnwys y nenfwd hardd, y ffenestri lliw, y sêd fawr a'r pulpud. Daethpwyd o hyd i nifer o hen greiriau a fydd o

ddiddordeb i'r cyhoedd ac a gedwir i'r oesoedd a ddêl.

Penodwyd Mr Dilwyn Roberts fel rheolwr y stiwdio a gellir cysylltu ag o am unrhyw ymholiad ar (01286) 678102.

Bydd cyfraniad Llun y Felin o bwys anrhaethol i dyfodol yr iaith Gymraeg. Gwneud rhaglenni plant ar gyfer S4C yw prif nodwedd y cwmni. Yn y gorffennol cynhyrchwyd sawl cyfres boblogaidd gan gynnwys 'Anturiaethau Jini Mê' a 'Cabare Cwasar'. Cwblhawyd wyth rhaglen o 'Bolgi Bach' — cyfres am fwyd a choginio i blant — eisoes yn y Stiwdio hon. Gobeithiwn ninnau y bydd yr arlwy yn parhau am flynyddoedd yn y Capel Mawr.

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo
**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**
40 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn:
(0248) 714043
neu C'fon 674520
Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc

Bistro
LLANBERIS
Ffôn 871278

PERCHNOGION: DANNY A NERYS ROBERTS

LLE DA I WLEDDA

Beth am Fwffe Enwog Nerys (rhwng 20 - 70)
i ddathlu pen-blwydd neu ben-blwydd priodas
Partïon rhwng 20 a 40. Ffoniwch am fanylion.
**Cofiwch am nosweithiau arbennig y Bistro —
nos Wener olaf bob mis**

Emyr Jones
PLYMAR A PHEIRIANNYDD
GWRESOGI

Cynnal boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau

44 Glanffynnon
LLANRUG
Caernarfon 673513



O Siambar Selwyn

Be 'di dy ffefryn di? Neu, yn amlach na pheidio: be, neu pwy ydi dy *favourite* di? Dyna gwestiwn a ofynnwyd i bob un ohonom, a chan bob un ohonom sawl tro wrth inni drin a thrafod amrywiol bynciau — o fwydydd i fandiau, o geir i gerdd dafod, ac o bregethwyr i bêldroedwyr.

Yn nyddiau fy mhlentyndod ym Methel roedd hi'n orfodaeth arna i, fel y mwyafrif o'm cyfoedion, i fynychu'r oedfaon yn rheolaidd deirgwaith ar y Sul. Ychydig iawn a ddeallwn ar y gwirioneddau a dywalltwyd arna i o'r pulpud, ac mae'n rhaid imi gyfadda mai yn groes i'r graen yr awn i i fwmiant fy adnod wrth Mr Mathews, y gweinidog, ar foreau Sul.

I fod yn onest roeddwn i'n ysu am gael mynd adra i gael cip sydyn ar ganlyniadau'r gêmau pêl-droed yn y papur Sul ac yn arbennig i ddarganfod beth fu tynged Sunderland.

Pam Sunderland o bawb, meddech chi? Wel, y nhw oedd y tîm cynta i mi ei gofio yn ennill y *Cup Final* yn Wembli. Oedd, roedd hynny mor bell yn ôl â 1937, a Preston North End oedd y tîm a gollodd (hon, gyda llaw, oedd y gêm ffeinal gyntaf erioed i gael ei theledu).

Ond, doedd 'na run set deledu yn agos i Fethel yn 1937 ac allan o gleciadau'r set radio Phillips y clywais i'r gêm, er na ddeallwn i yr un gair o Saesneg y pryd hynny, ond roeddwn i wedi dysgu rhifo i fyny i ddeg yn Saesneg, ac fe ddeallais y sgôr yn clecion o grombil y Phillips — Sunderland, three; Preston North End, one. A chan mai enillwyr mewn unrhyw faes sy'n debygol o fod yn ffefrynnau gan blant, Sunderland oedd fy nhîm i am flynyddoedd wedyn, ac er na fûm i erioed ar gyfyl Roker Park mae gen i ddiddordeb yng nghanlyniadau Sunderland hyd heddiw.

Yn ddiweddarach y deuthum i edmygu Frank Swift a Stanley

Matthews, ac mi ges i sawl cerydd o gyrraedd adra yn fwd o'm coryn i'm sawdl am imi geisio efelychu Frank Swift rhwng y potiau-pyst-gôl ar gors Tyddyn Bach.

Driblo rownd y brwyn a'r eithin wedyn gan ddychmygu mai fi oedd Stanley Matthews a thrigain mil o gefnogwyr anweledig yn clodfori fy nghampau, a hogia *Standard Wan* o'r *Spion Kop*, ar wal Blaen Rhos yn siantio, 'Come-on-Stan'. O ia, fi oedd Matthews yn nhîm yr ysgol fach ac roedd angen tri cherdyn sigaréts o bêldroedwyr enwog y dydd i gyfnewid am un o Stanley Matthews yn ffair iard yr ysgol ers talwm.

O du, mi fu Parch-y-wern a chors Tyddyn Bach a iard yr ysgol yn Wembli, Goodison, Anfield a Maine Road yn nyddiau aur fy mhlentyndod i yn ystod y tridegau.

Ymhen blynnyddoedd wedyn y cefais y profiad o sefyll ar y Spion Kop go-iawn megis, pan ddois i yn gefnogwr selog i dîm Lerpwl, ac rwy'n dal i ymweld â theml Anfield yn weddol amal. Mi fydda i yn fy sedd yno tua awr cyn i'r gêm ddechra gan anadlu'r awyrgylch a gwyllo'r Kop yn llenwi. Mae 'na rhyw awyrgylch arbennig yn Anfield. Chewch chi mohono fo mewn unrhyw gae pêl-droed arall. Mae 'na rhyw gyfriniaeth yn y geiriau sy'n wynebu'r ymwelwyr wrth iddyn nhw ymadael â'r ystafell wisgo i wynebu bonllef daranllyd y miloedd. Tri gair: *THIS IS ANFIELD* — geiriau sy'n codi braw ar unrhyw dîm sy'n meiddio herio'r cochion ar eu tomen eu hunain.

Mi fydd 'na ryw ias drydanol yn llifo drwy 'ngwythienna i o glywed emynau'r Kop yn hollti'r awyr. Ydi, mae Anfield yn llawn o atgofion am hen ffefrynnau. Cofio am deilepathi Keegan a Tosh; dewiniaeth St John a Dalglish; y wefr o weld Rush yn sgorio; a'r ochenaid o ryddhad o

weld arbedion gwyrthiol, ia, a chamgymeriadau yr un mor wyrthiol y golwr unigryw Bruce Grobbelar.

Gan mai eisteddle yw'r Kop bellach fe gollir un olygfa gofiadwy, sef gweld y don ddynol yn siglo'n feddw fel gwenith yn y gwynt o dan gantel y Kop, a'r dorf yn gymanfa o gân, yn tystio nad unig fydd teithiau'r cochion i bellafoedd daear: 'You'll never walk alone'.

A'r haleliwia ola' ar derfyn ambell gêm yn Anfield yw'r floedd orfoleddus pan gyhoeddir ar y *tanoy* i denantiaid Parc Goodison gael crasfa.

Bob tro y bydda i'n ymweld ag Anfield mi fydda i'n aros ennud o flaen y gofeb i'r rhai hynny a gollodd eu bywydau yn nhrychineb Hillsborough — nifer ohonyn nhw yn eu harddegau cynnar. Fedar yr un o ffyddloniaid Anfield anghofio'r olygfa honno. Maes y brwydrau yn fynwent o flodau ger allor y Kop. Temel Anfield yn drist a distaw a'r dorf yn ymlwybro'n araf i'r stadiwm gyda'u sgarffiau a'u blodau a'u dagrau. Anfield yn fud a dinas Lerpwl a'r byd pêl-droed yn galaru.

Na, does gan yr un tîm pêl-droed gartra cyffelyb i Anfield.

* * *

Fel y dywedai, wrth Mr Mathews y byddwn i yn sibrdw fy adnod pan yn blentyn. Fo oedd gweinidog Bethel — y Parchedig Richard Lloyd Mathews. Bu'n weinidog arnon ni am dros chwarter canrif.

'Sgydwodd yntau mo'r cyrddau mawr mwy na'r hen weinidog y cyfeiriodd T. Rowland Hughes ato, ond fe dawelodd sawl storom pan gurai corwyntoedd ar aelwydydd yr ardal. Rhoddodd Mr Mathews oes o wasanaeth i'r gymdogaeth — roedd o'n uchel ei barch, yn gymwynaswr, yn llawn hiwmor ac yn ffefryn bro. Yn wir roedd o'n arwr gan Mam.

Dw i'n cofio sefyll yn y ciw bws ar faes Caernarfon un nos Sadwrn, ychydig wedi i Mr Mathews gyhoeddi ei fod o am ymddeol. Roedd 'na ddau tu ôl i mi yn sgwrsio ac meddai un, 'Ma'r hen Fathews wedi penderfynu riteirio, ysdi.' 'Nefoedd,' meddai'r llall, 'tybed? Dyna gollad. Be neith Blackpool hebddo fo dwad?'

Dau wr yn gyfarwydd â dau berson o'r un enw, a'r un enw hwnnw yn eu harwain nhw ar amrantiad i feysydd cwbl wahanol. Y naill yn cyfeirio at Mr Mathews y gweinidog ffyddlon, a'r llall yn troi ei feddwl yn syth at y dewin o bêl-droediwr a ddaeth, yn ddiweddarach, i gael yr anrhydedd o fod y pêldroediwr cynta i gael ei ddyrchafu'n farchog — Syr Stanley Mathews.

Fel y dywedodd y marchog arall hwnnw o'r Rhyd-ddu am Dic Aberdaron, yntê: 'Chwara teg, nid yw pawb yn gwirioni 'run fath' — ac mae gan bawb ei ffefryn.

BETWS GARMON

TAN Y COED

Annwen Parry, Ael y Bryn
Ffôn: 872276

Cydymdeimlo: Cydymdeimlwn â Mr Mcann a'r mab yn eu profedigaeth o golli Mrs Mcann, Preswylfa, Tanycoed.

Llongyfarchiadau i Miss Megan Humphreys ar fod yn flaenor am 40 o flynyddoedd. Bu'n weithgar iawn yng Nghapel Tanycoed ac yn ysgrifennydd yr eglwys am gyfnod ac yn arolygydd yr Ysgol Sul. Gweithiai yn galed hefo'r plant, gan ei bod mor fedrus ynglŷn â phob rhan o waith y capel, yn eu dysgu ar gyfer cyfarfodydd arbennig y Pasg, Diolchgarwch a'r Nadolig. Bellach mae hi yr un mor ffyddlon yng Nghapel y Rhos a dymunwn yn dda iddi i'r dyfodol.


Llongyfarchwn hefyd Siwan Humphreys, Pant Bryngwyn, ar ei hethol yn is-gapten yr ysgol. Pob hwyl iddi.

Priodas: Ddydd Sadwrn, 30 Medi, yn Eglwys St. Garmon gyda'r Parchg E. Trefor Jones yn gweinyddu, priodwyd Jennifer Solanics unig ferch Gwalther Solanics a Roberta Johnston, Greenfille, Michigan, UDA, â lolo Peredur, mab lestin a Brenda Jones, Bryn Gloch.

Y forwyn briodas oedd Shannon Conrey, America (ffrind y briodferch), y gwas priodas oedd Vernon Haines, Caernarfon (ffrind y priodfab), a'r gweision bach oedd efeilliaid Owain Llŷr ac Irfon Pennant, Llandwrog Uchaf (neiaint y priodfab), a nhw hefyd a gyflwynodd oedd Eurig Jones (brawd y priodfab) a Rhun Gruffudd (ffrind). Y delynores oedd Elin Angharad Edwards, Betws Gwerful Goch, Corwen, yr organydd oedd Gareth H. Jones, Caernarfon; darllenwyd rhan o'r Ysgrythur gan Rhun Gruffudd, Aberystwyth. Treuliodd y mis mael yn Tawelfa. Bydd y pâr ifanc yn byw yn Llundain ble mae'r ddau yn gweithio.

R. M. (DIC) PARRY
PEINTIWR AC ADDURNWR
PRISIAU RHESYMOL
TAWELFA, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 870846

Am eich
ANGHENION
ADEILADU
mawr a bach
MASHACHWYR
A "D.I.Y."
am
BRISIAU
CYSTADLEUOL
dewch at
BRYN
(B & K Williams)



Yr Hen Ysgol
Glanmoelyn
LLANRUG
Ffôn: 677482

'Un funud fach . . .'

I GANOL Y MÔR

Y graffiti cyntaf i mi ei weld erioed oedd y geiriau 'Cofia Dryweryn'. Mae ambell enghraifft ohono i'w weld o hyd er bod 30 mlynedd bellach ers boddi pentref Capel Celyn dan ddyfroedd Llyn Tryweryn. Mae pobl yn dal i gofio'r stori boddi'r pentref a'r dyffryn. A bydd y cof yn aros, gan fod olion y pentref yn dod i'r golwg pan gilia'r dŵr mewn tywydd sych. Roedd lefel y dŵr yn isel fis yn ôl, y tro diwethaf i mi fynd heibio ar y ffordd i'r Bala. Ond tipyn o syndod oedd gweld llun yn y papur ddod yn dangos bod adfeilion rhai o adeiladau Cwm Celyn ynghyd â'r hen bont i'w gweld o hyd er ei bod bellach ganol mis Hydref, a hynny er gwaetha'r holl law a gawsom ers diwedd yr haf. Tybed faint o'r bobl a fu'n gyfrifol am foddi'r Cwm a garai anghofio'r cyfan amdano. Ond mae'r adfeilion a adawyd ar waelod y llyn yn dod i'r golwg bob hyn a hyn i ddweud eu stori ac i atgoffa pawb a'u gwêl o'r hanes. Nid yw dyfroedd Tryweryn yn gallu cuddio'r alanast a wnaed.

Mae'r Beibl yn sôn am ddyfroedd sy'n gallu cuddio'r hyn a daflwyd idynt am byth. Yn Micha 7:11 dywedir hyn am Dduw: 'Ti a defli eu holl bechodau i ddyfnderoedd y môr'. Dweud a wneir bod Duw, wrth faddau beiau ei bobl, yn anghofio'r cyfan am yr holl ddrwg a wnaethant. Mae fel petai Duw yn taflu ein pechodau i ganol y môr mawr dwfn, yn eu taflu ymaith mor bell ag sydd bosibl o'i olwg. Mae Duw yn cynnig maddeuant i bawb sy'n credu yn ei Fab Iesu Grist. Mae'n maddau ac anghofio, ac ni fydd yn ailgodi'r hen bechodau i'w hedliw yn ein herbyn eto. Maent wedi eu taflu i waelod y môr. Dyna i chi ddarlun yn llawn o gysur i bob Cristion.

Mae'n bwysig i'r Cristion gofio mai fel hyn y deliodd Duw ag ef. Gall golli gwefr maddeuant Duw os yw'n mynnu cofio o hyd am yr hyn a anghofiodd yr Arglwydd. Rhan o lawenydd y Cristion yw ei fod yn gallu gwybod bod Duw yn maddau popeth iddo. Ni raid dal i deimlo'n euog am bechodau yr ydym yn onest wedi eu cyfaddef i'r Brenin Mawr.

JOHN PRITCHARD

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: Fêlinheli 670726

Camera yng ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (0248) 670115



Plant bach newydd Ysgol Bethel ddechrau tymor yr hydref.

Diolch: Dymuna Mrs E. Jones, 2 Y Ddôl, ddiolch o galon i'w chymdogion, ffrindiau a phernasau am y dymuniadau da a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phenblwydd. Diolch yn fawr.

Diolch: Dymuna Goronwy Jones, Glan Gors, ddiolch o galon i'w ffrindiau, teulu a chymdogion am eu dymuniadau da yn dilyn ei lawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

Clwb 100 y Neuadd: Enillwyr mis Medi oedd — £20: Mrs Mary Evans Sŵyn Eryri (79); £10: Mrs Eileen Griffiths, Ivy Cottage (190); £5 yr un

i: Mrs Pat Hughes, 11 Stad Eryri (42); Mr Dewi Williams, Cefn Gwyn (56); Mrs Jackie Williams, 1 Post Office Row (150); Miss Angharad Price, 5 Tan-y-ffordd (170); Mrs Kathleen Bell, Tŷ Newydd (220); Mrs Kathleen Williams, GERddi (87); Mrs Iris Roberts, Cefn Cynrig (36); Ms Gwenan Roberts, 14 Stad Eryri (135).

Eisteddfod Bethel: Cynhelir noson o ddawnsio gwerin a disgo yn y Neuadd am 6.30 o'r gloch, nos Wener, Tachwedd 10fed. Tâl mynediad i oedolion fydd 50c gan

Ysgoloriaethau i Awduron

Cyhoeddodd Cyngor Celfyddydau Cymru ei fod am gynnig ysgoloriaethau y flwyddyn nesaf eto i gefnogi ac i annog awduron profiadol ac awduron newydd i ganolbwyntio ar eu gwaith ysgrifennu am gyfnod.

Dywedodd Emyr Williams, Swyddog Llenyddiaeth: 'Y mae'r cynllun ysgoloriaethau yn rhan o'n darpariaeth uniongyrchol i helpu llenorion. Maent yn eu galluogi i fwynhau rhyddid i ffordd o'u swyddi neu eu hamgylchiadau arferol i ganolbwyntio ar waith creadigol am gyfnod penodol, fel arfer hyd at chwe mis.'

★ Croesewir cieisiadau oddi wrth awduron sydd yn awyddus i ysgrifennu yn ystod y cyfnod sy'n

cychwyn 1 Ebrill 1996;

- ★ Cynigir ysgoloriaeth arbennig i awdur sy'n ysgrifennu ar gyfer plant a phobl ifanc i goffâu Irma Chilton, un o awduron plant mwyaf poblogaidd Cymru;
- ★ Ystyrir cieisiadau am grantiau tuag at unrhyw anghenion hyfforddi arbennig sy'n gysylltiedig ag awduron anabl;
- ★ Rhaid cyflwyno cieisiadau erbyn 11 Rhagfyr 1995;
- ★ Derbyniwyd 100 o geisiadau y llynedd a dyfarnwyd ysgoloriaethau gwerth £65,000 i 13 o awduron.

Ceir ffurflenni cais a manylion am sut i ymgeisio oddi wrth Emyr Williams, Swyddog Llenyddiaeth, Cyngor Celfyddydau Cymru.

gynnwys paned a bisgedi. Rhaid i bawb roi eu henwau (unigolion a phartïon i Anti Rita erbyn nos Wener, 3 Tachwedd. **Celf a Chrefft:** y gwaith i ddod i Caban yr Ysgol Feithrin ar nos Fercher, 15 Tachwedd, rhwng 4.30 a 6.00 o'r gloch. Bydd yr holl waith yn cael ei arddangos yn yr Eisteddfod a gynhelir ddydd Sadwrn, 18 Tachwedd, yn y Neuadd Goffa am 1 a 6 o'r gloch. Tâl mynediad i oedolion fydd £1 i bob cyfarfod ac 20c i blant ysgol uwchradd (nos yn unig). **Llên:** dan ffugenw i fod yn llawr yr ysgrifennydd erbyn 10 Tachwedd, ynghyd ag enw a chyfeiriad yr ymgeisydd mewn amlen wedi ei selio. Cofiwch fod gwneud brawddeg o'r gair DIOLCHGARWCH yn agored i BOB oedran. A fydd pawb sydd yn dal cwpan neu dlws ar hyn o bryd mor garedig a'u dychwelyd i 4 Tan-y-cae erbyn dydd Mawrth, 14 Tachwedd, os gwelwch yn dda.

Llongyfarchiadau i Gwenan ac Ynyr Hughes, Rowena, ar enedigaeth mab, Iolo Rhys, ar ddydd Iau, 12 Hydref.

Llongyfarchiadau i Maldwyn Hughes, 27 Bro Rhos ar dderbyn bathodyn Cymdeithas Ymchwil Cancr fel cydnabyddiaeth o'i ymdrech diflino i gasglu arian i'r gymdeithas dros nifer o flynyddoedd.

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Carys Wyn Hughes, 42 Bro Rhos, a Dyfed Henry Jones, Caernarfon, ar achlysur eu priodas yng Nghapel Bethel ddydd Sadwrn, 30 Medi.

Diolchgarwch: Dydd Sul, 15 Hydref, a dydd Llun, 16 Hydref, cynhaliwyd gwasanaeth Diolchgarwch yn y pentref. Fore Sul yn y Cysegr cynhaliwyd gwasanaeth aelodau'r Ysgol Sul gyda'r plant yn dod a'u rhoddion fel rhan o Ymgyrch Plentyn y Nadolig. Cafwyd nifer dda o roddion a bydd modd llenwi llawer o focus esgidiau yn anrhegion Nadolig i blant yn Bosnia, Croatia, Romania, Hwngari a Rwanda. Bydd cangen yr Urdd a'r Aelwyd hefyd yn casglu anrhegion i lenwi bocsus fel rhan o'r ymgyrch.

Y Gymdeithas Llenyddol: Nos Fawrth, 24 Hydref, agorwyd tymor y Gymdeithas gyda darlith ddifys iawn gan Dr Dafydd Roberts o'r Amgueddfa Lechi, Llanberis.

Nos Fawrth, 21 Tachwedd, bydd Dr Gerwyn Williams yn sgwrsio ar 'Darllen Delweddau'. Croeso cynnes i aelodau hen a newydd.

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL
A RHAD YM MHRYDAIN A THRAMOR ...



**BYSIAU ARFON
LLANRUG**

(Eric Morris)

Ffôn: Caernarfon 675175 a 677858

Ffenestri

CELTIC

Windows

2 TAN Y BRYN, BETHEL

BUSNES TEULUOL • CREFFTWYR LLEOL
FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS

NEWYDD! DRYSAU PALADIN —
HARDDWCH COED HEB Y STRACH!

Ffoniwch am amcanbris — rhad ac am ddim



(01286) 671181
(0831) 326160



CHWILOTA

'My Wonderful Form 5!'



Sawl athro neu athrawes, dan bwysau'r cwricwlwm cenedlaethol bondigrybwyll, fyddai heddiw'n cyfarch eu dosbarthiadau fel yna, sgwn i? Ond mae'n amlwg mai felly roedd hi ers talwm. Neu o leiaf, dyna brofiad disgyblion Ysgol Brynrefail yn y cyfnod ar ôl yr Ail Ryfel Byd, a'r rheini a gâi eu haddysg gan athrawes fel y ddiweddar Miss Gwyneth Evans, MA, AEM. Mrs Morfudd Jones, Llangefni (gynt o Lanrug) anfonodd yr hanes am y dosbarth 5 arbennig hwnnw, nôl yn 1946, ac am ei hymweliad olaf â'i chyn-athrawes rai blynyddoedd cyn ei marwolaeth. Gadawasf i Mrs Jones adrodd yr hanes:

Tra'n twtio drôr y dydd o'r blaen deuthum ar draws lluniau o'n hymweliad olaf â'n cyn-athrawes Hanes. Aeth June Ward, Ceinwen Jones (Morris, Fachwen, gynt) a minnau Morfudd (Llanrug), i edrych amdani rhyw bnawn tua dwy flynedd yn ôl.

Roeddem wedi sôn am fynd ers tro ond methu cael y dair ohonom yn rhydd ar yr un pnawn. Cawsom hyd i'w byngalo cyfforddus yn y pentref efo'r enw hir ym Môn! Goleuodd ei hwyneb pan welodd ni'n tair ar ei rhiniog. 'Dowch i fewn,' a dyna fflodiart y cof yn agor led y pen, a gallech feddwl y siarad a'r atgofio fu!

Dangosom iddi lun dosbarth 5, 1946, Ysgol Brynrefail, a chofiai enwau y cwbl gan holi am hynt a helynt hwn a'r llall. Aethom a thusw hyfryd o flodau iddi ac roedd wedi gwirioni hefo nhw.

'Dowch yn waglaw y tro nesaf,' meddai, 'mae cael cwmni yn ddigon i mi.' Roedd yn amlwg wedi mynd yn ôl i'r hen ysgol yn ei meddwl.

Dyma un a lanwodd yr enw 'athrawes' yn llawn ac ymhyfrydwn yn y ffaith ein bod ein tair yn gallu dweud, 'Disgybl wyf, hi a'm dysgodd'. Nid dysgu Hanes yn unig a wnâi i ni, ei disgyblion ond, yn ei ffordd ddihafal ei hun, dysgai i ni am wir safonau bywyd. 'Cofiwch, ble bynnag y boch, mai genod Ysgol Brynrefail ydych a'ch



Dwy o gyn-ddisgyblion Miss Gwyneth Evans, gyda hi yn ei chartref yn Llanfairpwll: June Ward (chwith) a Ceinwen Jones (Morris). Tynnwyd y llun gan Morfudd Jones (Roberts).

bod yn cadw, neu golli, enw da'r Ysgol wrth eich ymarweddiad.' Ychwanegai, 'ni ddylai "fe wnaiff y tro" fod yn eich vocabulary chi, genod Ysgol Brynrefail.' Yn aml byddaf yn clywed ei llais yn rhoi'r cyngor yma pan deimlwn fel gwneud rhywbeth rhywsut-rhywsut!

Heb fawr o adnoddau gweledol at ei gwasanaeth pwy a allai anghofio ei disgrifiad o'r ysbyty yn Scutari yn ysgol Rhyfel y Crimea yn ei gwers ar Florence Nightingale.

Gwelodd yr awdurdodau ei gwerth ac fe'i dyrchafwyd yn un o Arolygwyr Ysgolion Ei Mawrhydi, tua 1946 — y flwyddyn ar ôl i mi eistedd arholiad y Senior, pryd y cafodd rhai ohonom radd 'distinction' yn ei phwnc.

Bu tipyn o flynyddoedd cyn i'n llwybrau groesi wedyn. Y tro hwnnw daeth i Ysgol Gynradd Gwalchmai, tua 1953, yn ei swydd fel HMI i wrando arnaf fi, Miss




'My Wonderful Form 5' — Dosbarth 5 Ysgol Brynrefail, 1946, gyda'u hathrawes, Miss Gwyneth Evans MA. Y disgyblion yn y llun: Brenda Michael, Jennie Jones, Nancy Eva Owen, Glenys Jones, Eunice Parry, June Maxwell, Morfudd Roberts, Phyllis Mary Ellis, Mair Foulkes, Ceinwen Morris, John Morgan Humphreys, Iorwerth Glyn Morris, E. Selwyn Williams a Meuryn W. Hughes Roberts.

llywydd Merched y Wawr, ac yna yn llywydd anrhydeddus y mudiad, byddem yn cyfarfod mewn eisteddfod rhanbarth, pasiant neu gyfarfod blynyddol. Byddai wrth ei bodd cael cyfarfod â'i chyn-ddisgyblion a chlywed eu hanesion diweddaraf!

Roedd sparc yn ei llygaid. Aeth heibio'r 90 oed. 'Mae edwino yn ei bryd mor hardd a byw.' Rhoddwyd yr arwres i huno ym mynwent Bryngwran, ble bu ei thad yn weinidog gyda'r Annibynwyr.

MWY O ATGOFION AM EISTEDDFODAU

Gan Mrs Morfudd Jones hefyd y daeth y llun a'r wybodaeth am barti cydadrodd o Lanrug a fu'n cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol Dolgellau. Mr a Mrs Morris Jones, Awelon, Ffordd yr Orsaf, oedd yr hyfforddwyr, a bu eu partion yn adrodd yn llwyddiannus am flynyddoedd mewn amryw o eisteddfodau lleol a chenedlaethol.



Tair aelod o barti cydadrodd yn Eisteddfod Dolgellau: Nansi Edwina a Bessie, Penisarwaun, a Morfudd Roberts, Llanrug.



Argraffu a Ffotogopïo Lliw
Lluniau ar gyfer pasport
Crysau-T
Gwasanaeth Dylunio Pen
Llythyrau, Cardiau Busnes
ac ati, Ffotograffiaeth ...
a llawer mwy

**48 Stryd Fawr
LLANBERIS**
Ffôn/Ffacs: 870200

MAE'R

SAMARIAID

YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD



**BANGOR
354646**

★ Tacsï
★ Maes Awyr



**Yfwch chi
Gyrrwn ni!**

Ffôn: 871049/symudol 0831 429970
neu ffoniwch ni am ddim ar
National Cabline — Freephone 0800-123-444

MOSES SHIP

Yn dilyn yr hanes y mis diwethaf cefais amryw bytiau o wybodaeth am Moses Ship, gan gynnwys mwy am aelodau eraill o'r teulu. Credir mai Ship bach oedd y cartref, sef tŷ bychan wrth ymyl tafarn y Ship ym Mhontrhythallt. Roedd chwaer iddo yn byw yng Nghae Dicwm, Penisarwaun ac, fel yn achos Tyddyn Rhuddallt, roedd yn ymwelydd cyson yno hefyd — bob tro tua amser tel Perthynas arall oedd Mrs Ingham a bu hi a'i gŵr yn flaenllaw gydag achos y Wesleaid yn Llanberis o'i ddechreuad yno ddiwedd y ganrif ddiwethaf.

Gan Mr Robert Williams, Llain Gwta, Llanrug, y daeth y wybodaeth am Ysgoloriaethau neu Gronfa Moses Jones. Mae'n ymddangos iddi gael ei sefydlu i annog myfyrwyr a fwriadai dderbyn Urddau Sanctaidd yn yr Eglwys Wladol. 'Mae cof gennyf am hen ewythr i mi, Thomas Parry Jones, Tai Newyddion, oedd yn Warden Eglwys Mihangel, Llanrug, fy annog i droi i'r Eglwys er mwyn manteisio ar Ysgoloriaethau Moses Jones yn y tridegau.'

Yn ôl Mr Williams, un a fanteisiodd ar y cyfle hwn oedd y diweddar Ganon Gwilym Frank Hughes, Bod Ifor, Llanrug; a fu ar derfyn ei yrfa yn Ficer Prestatyn.

Cefais wybodaeth hefyd y byddai Moses Jones yn reidio o amgylch y pentref a'r fro ar feic tair olwyn anferth. Gwn fod Clwb Reidio Beics yn Llanrug ar ddechrau'r ganrif, ond ychydig iawn o wybodaeth sydd gen i amdano. Efallai nad oes cysylltiad o gwbl rhwng Moses Jones â'r Clwb Beics, ond byddai'n ddiddorol cael unrhyw wybodaeth ychwanegol.

CROES FICTORIA — I BWY?

Ar garreg fedd Syr Hugh Rowlands, Plastirion, ym mynwent Llanrug, mae copi o'r Groes Fictoria a enillodd yn Rhyfeloedd y Crimea. Yn ddiweddar iawn clywais nad Syr Hugh Rowlands oedd yn haeddu'r Fedal ond un o filwyr y gatradd oedd dan ei awdurdod. A'r hyn sy'n rhyfeddol yw mai gŵr lleol oedd hwnnw hefyd, sef, William Jones, Cryngae, Deiniolen. Tybed oes unrhyw un a all gadarnhau fod unrhyw sail i'r stori hon?

Y mis nesaf: tyddyn a roes ei enw i gapel, a phenillion am y bachgen dewr. Os oes gennych unrhyw sylwadau am hanesion y mis hwn, neu ymholiad am agweddau o hanes y fro, yna cysylltwch â Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug. Ffôn: (01286) 673515.

Cyfle i Gymry Cymraeg fentro i'r maes gofal

Y mae Ymddiriedolaeth Gofal Gwynedd wedi cael ei sefydlu yn ddiweddar gan Gyngor Henoed Gwynedd mewn partneriaeth â Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd a'r Sector Wirfoddol i ddarparu cefnogaeth, cyngor a hyfforddiant i Gymry Cymraeg sydd yn awyddus i sefydlu busnes yn y maes gofal.

Mae angen, yn enwedig yn ardaloedd gwledig Gwynedd, mwy o wasanaethau a dewisiadau i'r boblogaeth oedrannus ac i bobl ag anabledd corfforol, problemau iechyd meddwl neu anabledd dysgu i'w galluogi i aros yn eu cartrefi a'u cymunedau eu hunain a chael derbyn gofal, cefnogaeth a

gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Prif amcan yr Ymddiriedolaeth yw ceisio annog pobl leol i sefydlu gofal preswyl lleol ar raddfa fechan ac hefyd gwasanaethau cynnal aelwydydd a gofal cartref.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnig cefnogaeth a chynghor i ddarparu cynlluniau busnes, canfod ffynonellau cyllido, strwythurau cyfreithiol, a.y.y.b.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Ymddiriedolaeth Gofal Gwynedd, Bryn Morfa, Lôn Parc, Caernarfon, Gwynedd. Ffôn: (01286) 677711.

CWM-Y-GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: 872275

Camera yng ngofal Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug. Ffôn: 677263



Y Parchg Philip Hughes a Mr Robin Jones gydag athrawon a rhai o blant yr ysgol.

Undeb y Mamau: Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf tymor y gaeaf ar nos Fercher, 5 Hydref, yn Hafan Elan, Llanrug. Gweinyddwyd y Cymun Bendigaidd gan ein Rheithor, y Parchg Phillip Hughes. Ar ôl y gwasanaeth trafodwyd rhai materion gan Mrs M. Latham. Cafwyd adroddiad am y pwyllgor a gynhaliwyd yn Eglwys y Groes a'r pwyllgor yng Nghaergybi. Anfonwyd ein dymuniad am wellhad buan i Mrs E. Taylor a Mrs V. Jones, y ddwy wedi treuli cyfnodau yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Yn gofalu am y baned roedd Mrs J. Ransom a Mrs M. Latham, a diolchwyd iddynt ac i'r Rheithor gan Mrs Gwyneth Roberts. Rhoddwyd y raffl gan Mrs M. Latham ac fe'i henillwyd gan Mrs G. Roberts. Bydd y cyfarfod nesaf ar 6 Tachwedd. Terfynwyd gyda gweddi.

Diolch: Dymuna Delyth ac Arfon, 16 Dôl Afon, ddiolch i bawb am y llu cardiau, anrhegion ac arian a dderbyniasant ar enedigaeth eu mab, Dafydd Wheldon, brawd bach i Siôn Arfon.

Caws a Gwin: Cynhelir noson Caws a Gwin yng Nghanolfan Hafan Elan, Llanrug, nos Wener, 24 Tachwedd am 7 o'r gloch. Bydd elw'r noson tuag at Eglwys y Plwyf.

Apêl Mynwent Plwyf Llanrug: Dymuna'r Cyngor Plwyf Eglwysig ddiolch i bawb a gyfrannodd yn ystod y flwyddyn i Gronfa'r Fynwent. Eleni gwariwyd £850 ar y gwaith o dorri'r gwaith ac ar waith

cynnal a chadw cyffredinol. Mae pawb o'r farn fod gwaith graenus iawn wedi'i wneud eleni a'r gobaith yw y caiff hyn ei ailadrodd y flwyddyn nesaf. Yn anffodus mae'r gronfa bron yn wag bellach, felly mae'r swyddogion yn gwneud apêl am gyfraniadau ar gyfer 1996. Anfoner unrhyw arian i'r trysorydd: Mrs Dilys Jones, 18 Hafan Elan, Llanrug.

Newyddion o'r Ysgol: Fel rhan o'u gwaith dosbarth ymwelodd Bl. 1 a 2 â Gelli Gyffwrdd. Treuliwyd prynhawn difyr iawn yn y Ganolfan hynod ddiddorol hon.

Aeth gwobrau Clwb yr Ysgol am fis Medi i Miss Carys Williams, Bryn, a Mrs Rhian Jones, Bron Eryri. Llongyfarchiadau i'r ddwy ohonynt.

Cynhaliwyd Gwasanaeth Diolchgarwch yr ysgol bnawn Gwener, Hydref 13eg. Croesawyd rhieni a ffrindiau atom a chafwyd anerchiad gan Reithor Eglwys St. Gabriel, y Parchg Philip Hughes.

Eleni rydym yn cyflwyno'r casgliad i Gymdeithas yr Henoed yng Ngwynedd a daeth Mr Robin Jones atom i ddiolch ar ran y Gymdeithas.

Yn ystod y mis nesaf bydd gennym flwch arbennig yn yr ysgol i gasglu arian tramor o unrhyw fath ac o unrhyw wlad. Bydd hwn hefyd yn cael ei gyflwyno i'r Henoed. Felly, os ydych eisiau cyfle i glirio hen byrsiau a droriau — byddem yn falch iawn o dderbyn yr arian at yr achos teilwng hwn.

Am Wasanaeth
Fframio Lluniau
Tystysgrifau
Tapestri

am brisiau rhesymol


**ELWYN
PRITCHARD**

Parc Padarn, Llanberis
Ar agor Llun — Sadwrn
10.00 — 4.30

Ffôn: Llanberis
870922

GWYN JONES
FFENESTRI ERYRI
GARTH ISAF, LLANRUG
(01286) 650764

★ Ffenestri ★ Drysau ★ Drysau Patio
★ Porches ★ Byrddau Ffasia



★ Cladio
★ Conserfateris

12 MLYNEDD O
BROFIAD YN Y MAES

Heliwch eich traed
am fargen i

**SIOP
ESGIDIAU
GLENS**
Stryd Fawr
LLANBERIS
Ffôn: 871470



EISTEDDFOD BENTREF LLANRUG 1995

Ymadael



Genod y Ddawns Flodau gyda'r Prif Lenorion.

Enillwyd y Gadair gan Dafydd Whiteside Thomas a Thlws yr Ifanc gan Emma Lloyd Davies.

Cynhaliwyd Eisteddfod Bentref Llanrug dydd Gwener, 13 Hydref, yn Ysgol Brynrefail.

Y beirniaid oedd — Cerdd a Cherdd Dant: Miss Ann Peters; Adrodd, Barddoniaeth a Rhyddiaith: Mr Dennis Davies; Gosod Blodau, Ceginio, Tecstilau a Dawns: Mrs Judith Harding; Arlunio a Thri Dimensiwn: Mr Dilwyn Jones; Ffotograffiaeth: Mr Gwyndaf Hughes. Y cyfeilydd oedd Mrs Olwen Jones.

Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb a gyfrannodd at lwyddiant yr Eisteddfod mewn unrhyw fodd.

Dyma restr y canlyniadau:

Unawd dosbarth derbyn: 1, Ceri; 2, Siôn; 3, Ruth. **Adrodd dosbarth derbyn:** 1, Gerallt; 2, Declan; 3, Siôn a Lois. **Unawd cyn oedran ysgol:** 1, Ceri; 2, Daniel Anthony; 3, Kyle. **Adrodd cyn oedran ysgol:** 1, Ceri; 2, Kyle; 3, Gethin a Dafydd. **Unawd bl. 1 a 2:** 1, (Cadair Lowri) Llinos Catrin; 2, Mari; 3, Gwenno. **Adrodd bl. 1 a 2:** 1, Mari; 2, Llinos ac Elin; 3, Llinos. **Unawd bl. 3 a 4:** 1, Natalie; 2, Guto; 3, Fflur a Ceri. **Adrodd bl. 3 a 4:** 1, Megan; 2, Natalie; 3, Ifan. **Unawd piano bl. 3 a 4:** 1, Guto; 2, Natalie; 3, Mark ac Ifan. **Unawd ar unrhyw offeryn pres i oedran ysgol gynradd:** 1, Iwan; 2, Siôn Emyr; 3, Robin; 4, Guto. **Unawd piano bl. 5 a 6:** 1, Bethan; 2, Sioned a Rhian; 3, Llio a Phillip. **Unawd ar unrhyw offeryn heblaw offeryn pres a phiano i oedran cynradd:** 1, Kate; 2, Llio. **Parti dawns werin i oedran ysgol gynradd:** 1, Parti Pigog; 2, Y Ffarmwrs; 3, Parti Chwewch a Llancesau Maldwyn; 4, Parti United. **Unawd piano bl. 7-11:** 1, Nia; 2,

Ieuan; 3, Iona a Siân. **Dawns werin unigol:** 1, Geraint. **Grŵp offerynnol:** 1, Unwaith Eto. **Cyflwyniad llafar digri:** 1, Y Ddwy Ddraig. **Parti unsain i blant oedran ysgol gynradd:** 1, Parti Donna; 2, Parti Huw. **Siarad cyhoeddus:** 1, Gwion. **Cân werin:** 1, Merched Tywyn; 2, 'Yr Opposition'. **Dawns fodern:** 1, Parti Cloe. **Unawd ar unrhyw offeryn heblaw piano:** 1, Gwion; 2, Donna. **Emyn i rai dros 50:** 1, Arthur; 2, Menna; 3, Elizabeth. **Cyflwyniad llafar digri — (a) oed cynradd:** 1, Parti Steddfod; (b) bl. 7-11: 1, Parti Tŵr; 2, Parti Gwion. **Unawd ar unrhyw offeryn i oedran bl. 12 a throsodd:** 1, Rhian. **Cyflwyniad cerddorol lleisiol i oedran bl. 12 a throsodd:** 1, Y Meibion; 2, Merched Mozart. **Raffi:** Margaret Pritchard.

CELFA CHREFFT. Gwnio, bl. 1 a 2: 1, Sioned Hughes; 2, Fiona Pitts; **bl. 3 a 4:** 1, Huw Mackinnon; **bl. 5 a 6:** 1, Bethan Mackinnon; 2, Llio Hughes; **bl. 9 a 10:** 1, Emma Lloyd Davies; **agored:** 1, Emma Lloyd Davies; 2, Llio Hughes. **Gwau neu grosio, agored:** 1, Yvonne Pitts. **Coginio, bl. 1 a 2:** 1, Aled Rhys Williams; 2, Fiona Pitts; 3, Ffion A. Williams; **bl. 3 a 4:** 1, Mark Pitts; 2, Guto Wyn a Rhys Williams; 3, Ffion Haf a Fflur Griffith; 4, Jake Burston, Dafydd Gwyn Thomas, Huw Mackinnon, Meilyr Owen a 'Cantona'; **bl. 5 a 6:** 1, Robin Thomas a Gemma Jones; 2, Llio Hughes; 3, Dion Owen a Siôn Emyr; 4, Siôn Rhys, Bethan Mackinnon, Owain Rhys a Donna Griffiths; **bl. 7 ac 8:** 1, Meleri Griffith; 2, Iwan P. Jones; 3, Siân Green; **agored (merched):** 1, Eirianwen Thomas; 2, Katie Davies; 3, Yvonne Pitts; (dynion): 1, Rolant Wynne; **jam:** 1, 2, a 3: Eirianwen Thomas; **chutney:** 1, Gareth Jones; 2, Steve Burston; 3, Eirianwen Thomas; **gosod blodau:** 1, Delyth Hughes; 2, Sally Lloyd Davies.

TRI DIMENSIWN. Cyn oedran ysgol a dosbarth derbyn: 1, Efa Dyfan; **bl. 1 a 2:** 1, Cai Dyfan; 2, Ffion a. Williams; 3, Sioned M.

Hughes; 4, Aled Rhys, Catrin Jones, Jonathan Daniel a Fiona Pitts; **bl. 3 a 4:** 1, Rhys Williams; 2, Huw Mackinnon; 3, Meilyr Owen; 4, Mark Pitts, Dafydd Thomas, Ffion Haf, Ceri Meredydd a Dafydd Meredydd; **bl. 5 a 6:** 1, Bethan Mackinnon; 2, Dion Owen; 3, Rhian Jones; 4, Gemma Louise, Robin Thomas, Iwan Rhys a Gethin Jones.

ARLUNIO. Oedran ysgol feithrin: 1, Ffion Haf Evans; 2, Ceri Roberts ac Elliw Fflur; 3, Kyle Williams a Sophie Williams; **dosbarth derbyn:** 1, Gerallt Roberts; 2, Declan Jones a Siôn Eifion Jones; **bl. 1 a 2:** 1, Fiona Pitts; 2, Llinos C. Roberts; **bl. 3 a 4:** 1, Mark Pitts; 2, Ffion Haf; 3, Fflur Griffith a Meilyr Owen; **bl. 5 a 6:** 1, Robin Thomas; 2, Kate Beard; 3, 'Stanley'; **bl. 7 ac 8:** 1, Siân Green; 2, Guto Humphreys; 3, Meleri Griffith; **agored:** 1, Sharon Blanchard; **Cwpan Emma Bernard:** Siân Green.

FFOTOGRAFFIAETH. Agored: 1, Dafydd G. Thomas, John Owen, Meilyr Owen a Dion Owen.

LLenyddiaeth: bl. 3 a 4 barddoniaeth: 1, Guto Rhun Wynne; 2, Natalie Blanchard; 3, Ceri Williams; **rhyddiaith:** 1, Debbie Hughes; 2, Manon Trevor; 3, Beverley Ann Taylor a Megan Jones; **bl. 5 a 6 barddoniaeth:** 1, Iwan Rhys; 2, Sioned Wyn Jones; 3, Geraint Iwan ac Anthea Davies; **rhyddiaith:** 1, Iwan Rhys; 2, Phillip Lynes; 3, Siôn Emyr a Sioned Wyn Jones; **bl. 7 ac 8 rhyddiaith:** 1, Elin Dafydd; 2, Siân Green; 3, Nia Williams a Meleri Mair; **bl. 9 a 10 barddoniaeth:** 1, Emma Lloyd Davies; **rhyddiaith:** 1, Emma Lloyd Davies; 2, Ceri Jones; 3, Kelly Roberts. **Agored. Erthygl ffeithiol:** 1, Eric Jones (Castell March); 2, Robert Williams; 3, Eric Jones. **Stori Fer:** 1, Dafydd Whiteside Thomas. **Dros 60:** 1, E. Whiteside Thomas; **Brawddegau:** 1, Eric Jones; 2, I. Butler. **Y Gadair:** Dafydd Whiteside Thomas. **Tlws yr Ifanc:** Emma Lloyd Davies.

Annwyl Olygydd,

Ysgwn i a fydddech mor garedig a chaniatau i mi wrth ffarwelio â Bangor, Caernarfon a'r cylch gan symud i'r Bala, ddatgan fy niolch cywiraf i lawer o'ch darllenwyr am y croeso rwyf wedi ei dderbyn ganddynt wrth ymweld o ddrws i ddrws gan geisio rhannu gyda nhw ffordd Duw o achub pechaduriaid?

Dair blynedd ar ddeg yn ôl dyn dieithr oeddwn i i ran fwyaf o drigolion pentrefi'r cylch ond erbyn hyn gallaf ddweud yn onest fy mod wedi dod i adnabod llawer yn dda iawn a dyna un o'r ffactorau sydd yn gwneud y symud nawr mor anodd!

Buaswn yn falch pe medrwn ddweud fod fy neges wedi cael cystal croeso! Yn anffodus nid yw hynny'n wir, er bod llawer yn holi cwestiynau ac yn barod i drafod materion o bob math. Does dim rhyfedd bod yna gwestiynu, anobeithio a hyd yn oed caledi yn digwydd heddi gyda'r fath broblemau personol, teuluol, cymdeithasol a rhyng-wladol yn ein hamgylchynu yn barhaus. Ond ar waethaf hyn i gyd mae'r Beibl yn dweud y gallwn fod yn obeithiol a hyderus nid oherwydd gallu a dyfeisgarwch dyn i sicrhau amgylchiadau ffafriol ond oherwydd gallu Duw i ddelio gyda gwreiddyn y drwg, sef calon dyn ei hun.

Mewn gwirionedd mae Duw wedi delio unwaith ac am byth gyda drygioni dyn. I hyn y daeth Iesu Grist i'r byd gan honni ei fod yn Dduw yn y cnawd, wedi dod i gymryd y gosb yr oeddem ni yn ei haeddu am ein pechodau. Profodd y tu hwnt i bob amheuaeth fod ei honiad yn wir pan atgyfododd yn fyw o'r bedd y trydydd dydd ac, oherwydd hyn, mae'n cynnig nid yn unig inni faddeuant am yr holl bethau a wnaethom o'i le, ond hefyd nerth newydd trwy yr Ysbryd Glân i'n galluogi i fyw nawr yn ôl safonau Duw. Mewn geiriau eraill, mae'n cynnig bywyd newydd a hwnnw'n fywyd o ansawdd tragwyddol.

Felly, nid galwad i ni i wneud ein gorau mo'r efengyl ond, yn hytrach, i ni dderbyn gorau Duw gan gyfaddef yn edifeiriol ein gwendid moesol ac ymddiried yn llwyr yn aberth gorffenedig Iesu Grist yn unig am ein derbynnydd gyda Duw. Ac o'r berthynas newydd hon a'r sicrwydd sy'n dilyn — fod pethau yn iawn rhyngom ni a Duw trwy Iesu Grist — y ffrydia pob gweithgarwch wedyn fydd yn glod i'w enw.

Dyma'r neges y cefais y fraint o'i chymeradwyo i drigolion y fro hon yn ystod y blynyddoedd diwethaf hyn. Dyma fydd fy neges yn y Bala hefyd, ond byddaf nid yn unig yn ymweld o ddrws i ddrws, fel ag y bûm yn yr ardal hon, ond byddaf hefyd yn bugeilio Eglwys Efengylaidd y Bala ar yr un pryd.

Wrth derfynnu a gaf i eich annog, beth bynnag fo eich hanes, i geisio Duw o ddifri, a'r bywyd tragwyddol sydd yn fywyd yn wir. Dyma'r unig beth fydd yn cyfri yn y diwedd. Bydd y Parchg Philip Hughes neu'r Parchg John Pritchard yn barod i gael sgwrs gydag unrhyw un a garai wybod mwy am y neges bwysig hon.

Yr eiddoch yn gywir,

IOAN DAVIES

Cartref, Ffordd Deiniol, Bangor.



**ORIEL
PLAS
GWYN**

Pontrug, Caernarfon

Gwasanaeth Fframio Lluniau
o bob math ar gael ar y safle

Prisiau Rhesymol

Arddangosfa o luniau
gwreiddiol gan Artistiaid Lleol

Ar ffordd A4086

Caernarfon — Llanberis

Ffôn/ffacs: 0286 672619

Richard S. Humphreys

**J.M.
JONES
A'I FEIBION
GWAITH
CERRIG
BEDDAU**

**Y SGWÂR
LLANRUG**

Crefftwyr gwaith
llaw traddodiadol
Cerrig o bob
math ar gael

Ffôn:

C'fon 672898 (dydd)

C'fon 676285 (nos)

'Diolch o Galon'

Annwyl ddarlennwyr,

Tybed faint ohonom sy'n sylweddoli — flynyddoedd yn ddiweddarach efallai — cymaint fu dylanwad person arbennig arnom ar rhyw gyfnod yn ein bywydau. Oni bai amdano ef neu hi, byddai'n sefyllfa heddiw yn dra gwahanol. Ond ym mha ffordd? A oes gennych chi stori dda, stori ddifyr, stori afaelgar, am berson cyffredin roddodd dro anghyffredin yng nghwrs eich bywyd chi?

Dyma'ch cyfle i gydnabod eich dyled, i fynegi eich gwerthfawrogiad ac i roi'r sylw haeddiannol i rywun arbennig. Waeth faint o flynyddoedd aeth heibio, gobeithiwn allu troi'r cloc yn ôl, ac ailafael yn y berthynas bwysig honno, a chynnig y cyfle i ddweud 'Diolch o Galon'.

Mae cwmni teledu Tonfedd yn chwilio ledled Cymru (ac ymhellach) am bobl i ddiolch yn gyhoeddus iddynt am gyfraniad arbennig i fywydau pobl eraill. Os ydych chi'n 'nabod unrhyw un sy'n haeddu'r clod a'r sylw, cysylltwch â ni, ond peidiwch â sôn wrthyn nhw! Eich cyfrinachau chi fydd ein rhaglen ni!

Yn gywir,

HEFIN ELIS (Cynhyrchydd)

Tonfedd Cyf

Uned 33, Cibyn, Caernarfon

Ffôn: (01286) 676800

Annwyl Olygydd,

Fel un sy'n dal mewn cysylltiad â'r ardal carwn ddweud gair ynglŷn â Chraig yr Undeb. Ni chredaf fod gan yr un Cyngor, na neb arall, yr hawl i feddwl symud y maen hwn sy'n atgoffa ymwelwyr ac ardalwyr Llanberis o ran bwysig o hanes chwarel Dinorwig. Rwy'n gwrthwynebu'n bendant unrhyw fwrriad i symud y maen o Ben-llyn a'i osod mewn man arall.

Mae'r garreg hon yn rhan o'm bywyd. Mae'n nodi'r man y bu i ni sefyll mewn protest. Ai aelodau'r Cyngorau, nad oes ganddynt gysylltiad â'r chwarel, sy'n mynnu eu ffordd eu hunain wrth geisio symud y garreg a chwalu'r cof am ein brodyr. Trwy eich papur, a gaf bwyso arnynt i adael y garreg lle mae.

STANLEY GRIFFITHS

(gynt o Gwm-y-glo)

71 Bramham Drive, Harrogate.

Cefnogwch ein Hysbysebwy

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491

Camera yng ngofal John Pritchard, Cilfynydd. Ffôn: 872390



Nos Iau, Hydref 19, cyflwynwyd gwobrau blynyddol cystadleuaeth Gardd Orau Llanberis, yn Angorfa. Yr enillwyr oedd: 1, Oliver Edwards, 93 Maes Padarn; 2, Gwynfor Jones, 51 Dôl Elidir; 3, June Ward, 4 Maes Padarn; a Noel Owen, 22 Maes Padarn; 4, Gwilym Jones, 17 Dôl Eilian. Yn y llun gwelir Ken Jones, Cadeirydd Cyngor Cymuned Llanberis, gyda rhai o'r enillwyr, Gwilym Jones, Noel Owen a Gwynfor Jones.

Enillwyr Clwb Ffrindiau Ysgol Dolbadarn am fis Hydref — £35: Mrs G. Pritchard, 56 Dôl Elidir (77); £25: Mr D. Roberts, Y Bistro (14); £15: Mrs M. Price, 28 Dôl Elidir (41); £10: Miss L. Pritchard, Berth, Stryd Fawr (196); £5: Mrs M. Griffiths, Llainwen Isaf (186).

Cymdeithas Eglwys St. Peris a St. Padarn: Cynhaliwyd cyfarfod o'r Gymdeithas yn St. Padarn ar nos Iau, Hydref 5ed, dan lywyddiaeth Mrs Ann Parry-Jones. Fel arfer dechreuwyd trwy weddi dan arweiniad Mr Ralph Jones. Mr Bert Thomas oedd y gŵr gwadd y mis yma, a chyda chymorth sleidiau, siaradodd yn huawdl am darddiad a thyfiant mudiad y Crynwyr yng Nghymru ac yn fyd-eang. Ar ran yr aelodau diolchwyd iddo gan y Parchg Gwynfor Williams, ac i'r merched oedd yn gyfrifol am y baned a'r raffl — Mrs Dilys Phillips a Mrs Jean Roberts. Enillydd y mis oedd Mrs Moreen Lennon.

Jerusalem: Mewn cyfarfod o'r Gyfeillach, Hydref 3, gyda Hugh R. Jones y gadair, ac wedi croesawu ffrindiau newydd, cafwyd sgwrs

ddiddorol gan Gwilym Searell Jones ar y Nant fel yr oedd a hanes gweithgareddau yr ardal a chapel Rehoboth. Cafwyd sgwrs i ddilyn gyda chwpaned o de a bisgedi. Bydd y cyfarfod nesaf ar ddydd Mawrth, 7 Tachwedd, gyda Mrs Olwen Davies, Bangor, yn ein atgoffa am Blaen-y-ddôl a Limbo. Bydd croeso cynnes i bawb.

Clwb yr Henoed, Llanberis a'r Cylch: Llongyfarchiadau i Mrs Gwyneth Clark, trysorydd y Clwb, a'i phriod ar ddathlu eu priodas aur yn ddiweddar. Cyflwynwyd iddynt gloc hardd a dymuniadau da ar yr achlysur hapus.

Ar ymddiswyddiad Miss Ann Jones fel casglydd 'Tramping' y Clwb, diolchwyd iddi am ei gwaith gofalus dros gyfnod o chwarter canrif. Fel gwerthfawrogiad o waith diflino Miss Jones cyflwynwyd rhodd o docyn arian iddi.

Penodwyd Mrs Gwen Williams a Mrs Ceinwen Williams i ymgymeryd â'r gwaith o gasglu'r 'Tramping'.

Cartref Newydd: Pob dymuniad da i John Rees, Eirlys ac Alwen yn eu cartref newydd ym Mlaen-y-ddôl.

Croeso hefyd i Mr a Mrs Gwilym O. Jones o Ynys Môn i'w cartref newydd ym Maes Padarn.

Diolchiadau

Dymuna Peredur ac Elizabeth, Fron Goch, ddiolch o galon i'w teulu, cymdogion a ffrindiau am eu caredigrwydd tra bu Peredur yn yr ysbyty ym Mangor a Llandudno, ac ar ôl dod adref. Diolch hefyd i feddygon a nyrsus y ddwy ysbyty ac i feddygon a nyrsus Llanberis. Diolch yn fawr.

Dymuna teulu y ddiweddar Mrs Edna May Jones, 20 Maes Padarn, a fu farw ar 11 Gorffennaf, ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad tuag atynt. Diolch yn arbennig i'r cymdogion a'r ffrindiau lu a fu mor ffyddlon iddi yn ystod ei gwaeledd ac hefyd i'r rhai a fu'n gweini arni yn Nhyddyn Elan ac Ysbyty Gwynedd. Trosglwyddwyd y rhoddion o £400 i Ysgol Pendalar / Canolfan Segontium.

Capel Coch: Ddydd Sadwrn, Hydref 7, trefnwyd taith nodedig gan yr Ysgol Sul. Cerddodd y plant a'u rhieni a rhai o aelodau eraill yr eglwys ar hyd yn Lôn Lâs o'r Amgueddfa i Ben Llyn. Nid oedd y glaw yn amharu dim ar yr hwyl. Roedd Mrs Helen Morris yn disgwyl am y cerddwyr sychedig gyda diod ym Mhen Llyn. Bydd elw'r daith yn cael ei ddefnyddio i brynu offer i'r Ysgol Sul.

Cynhaliwyd yr Ŵyl Ddiolchgarwch ddydd Sul, Hydref 15. Cafwyd cyfarfod gweddi yn y bore a phregethwyd yn oedfa'r hwyr gan Mr Gwilym Charles Williams, Llandudno. Yn y prynhawn cafwyd oedfa'r plant. Eleni yr oedd athrawon yr Ysgol Sul wedi paratoi cyfraniad eu dosbarth ar gyfer yr oedfa. Cyflwynodd y plant ffrwythau a llysiau fel arfer a chafodd y rheiny eu dosbarthu i aelodau hynaf yr eglwys drannoeth. Ar ddiwedd yr oedfa cyflwynwyd llun yn rhodd i Mr Idwal Lloyd Roberts i ddiolch am ei waith yn yr Ysgol Sul yn Capel Coch (a chyn hynny yn Gorffwysfa) am flynyddoedd lawer. Mathew a Daniel, ei wyrion, a gyflwynodd y rhodd iddo. Cyflwynwyd hefyd gloc llechen yn rhodd i Mr Cledwyn Parry i ddiolch am ei waith yntau fel athro Ysgol Sul ac yn arbennig am ei waith fel Ysgrifennydd Cyhoeddiadau'r Sul Capel Coch (a Phreswylfa cyn hynny) am dros 25 mlynedd. Cyflwynwyd y rhodd iddo gan ei ŵyr a'i wyres yntau, Lliffon a Sara. Yna gwahoddwyd pawb i aros am sgwrs ac i fwynhau lluniaeth ysgaf a oedd wedi ei baratoi gan rieni'r Ysgol Sul.

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

CAFFI "BWYTY ERYRI"
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Bara Ffres
Teisennau

Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati
Peis, Rholiau Sosej

Pasteiod, Teisennau Hufen
Teisennau Plât, Torth Gyrains ac ati

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

E. W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: 870202 a 870272

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna
679501 (gwaiht); 677438 (cartef)

Gŵyl Gerdd Dant: Er mwyn codi arian tuag at apêl y pentref ar gyfer Gŵyl 1996 a gynhelir yng Nghaernarfon, cynhelir noson Caws a Gwin yn Bae Ochr-y-pwll, Glangwna, ar nos Fercher, 8 Tachwedd. Tocynnau gan aelodau'r pwyllgor neu wrth y drws.

Gwasanaethau'r Capel: Disgwylir y canlynol i wasanaethu yn ystod y mis nesaf:

Tachwedd:

5 Parchg W. R. Williams (2)
12 Parchg Gareth Maelor (2)
19 Parchg Gwynfor Williams (5.30)
26 Parchg W. R. Williams (2)

Rhagfyr:

3 Parchg. H. Gwynfa Roberts (2)
Pwyllgor Gŵyl Cerdd Dant: Cynhelir cyfarfod nesaf y pwyllgor am 7 o'r gloch nos Fercher, 1 Tachwedd, yn y Capel.

Tynfa fisol: Enillwyr am fis Hydref oedd — £40: Mr a Mrs Donaldson, Homes (52); £25: Frances Parry, Tafarn Bryngwna (77); £15: Dewi Jones, 15 Erw Wen (97); £5: Clive James, Hafan (71). Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Newyddion Lleol: Er mwyn hwyluso gwaith y gwirfoddolwyr, a gwella eich papur bro, gofynnir am wybodaeth am unrhyw newyddion y pentref a'i bobl gael eu trosglwyddo i naill ai Rhiannon Roberts, Cefn Rhos Isaf, neu Clive James, Hafan, ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn.

Rhagor o luniau Râs Antur Waunfawr



Aelodau tîm yr Antur ei hun, Michael, Anwen a Gwion, a enillodd Gwpan B a K Williams, Llanrug.



Yr unig ferch yn y râs fawr, Maggie Fookes.



Enillwyr y Râs: Alun T. Williams, (3ydd); Tegid Roberts (1af); Phil Llan Jones (2il)

Oriel Arddangos Newydd yn Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis

David Trace — Chwarel Dorothea

2 Hydref — 18 Rhagfyr 1995

Mae datblygiad cyffrous newydd wedi ei gwblhau yn Amgueddf Lechi Cymru, Llanberis. Y mis hwn agorir Oriel Arddangos newydd fydd yn gartref i gyfres o arddangosfeydd dros-dro sy'n gysylltiedig â'r diwydiant llechi.

Mae'r Oriel Gelf wedi'i lleoli wrth ymyl Ystafell Addysg newydd fydd yn rhoi cyfle i bob math o grwpiau wneud y defnydd eithaf o'r Amgueddfa a threulio mwy o amser yn darganfod hanes a'r diwylliant sy'n perthyn i'r adeilad ac i'r diwydiant yn gyffredinol.

'Mae'r datblygiad newydd hwn yn gam pwysig iawn yn hanes Amgueddfa Lechi Cymru,' meddai Dr Dafydd Roberts, Curadur yr Amgueddfa. 'Gobeithiwn gyflwyno rhagor o ddatblygiadau yn y dyfodol fydd yn cynyddu mwynhad ac ymwybyddiaeth pobl o'r diwydiant a'r ardal.'

Mae Mrs Celia Wyn Parri, Swyddog Addysg yr Amgueddfa, hefyd yn edrych ymlaen yn fawr iawn at ddefnyddio'r ystafell: 'Yn ogystal â bod yn le da i ddarganfod hanes gweithdai chwareli Dinorwig fe fydd yr ystafell yn gyfle i gyflwyno mwy o wybodaeth am ffordd o fyw y chwarelwyr — yn eu gwaich ac yn eu cartrefi.'

Yr arddangosfa gyntaf fydd casgliad o ffotograffau o Chwarel Dorothea, Nantlle, gan Mr David Trace, sy'n hanu o Lundain. I gydfynd â'r gyfres ceir cerddi o waith Margaret Leff fydd yn atgyfnerthu neges y ffotograffau.

Os am ragor o wybodaeth am yr Oriel newydd, neu'r ystafell addysg, dylid ffonio Julie Jones, Swyddog Hyrwyddo, neu'r Swyddog Addysg, Celia Parri ar (01286) 870630.



DRAENOG

Piciodd gwraig o Lanberis i'r dre i siopa
Ac ar frys i fynd adra ar y bws nesa',
Yn y safle wrth 'Argos' roedd bws KMP
Aeth i mewn, cymrodd sedd, ac i ffordd â hi.
'Doedd y 'route' diwrnod hwnnw yn ddim byd tebyg
Aeth y bws heibio'r Eagles, a draw am Lanbeblig.
'Daw yn ôl toc, reit siŵr,' meddai'n ddigon sidet,
Nid oedd am godi i holi, rhag colli'i sêd.
'Roedd yn teimlo yn wir erbyn hyn fel mynd lawr
Ond ymlaen aeth y bws nes cyrraedd Waunfawr.
Rhaid oedd wedyn dod nôl bob cam i Gaernarfon
Ac yn siŵr erbyn hyn roedd wedi cael digon.
'Roedd ganddi gywilydd o'i hun am fod mor flêr
A rhaid oedd chwilio eilwaith am fws i Lanbêr.
Gyda enwau'r pentrefi ar bob bws mor fawr
Sut, meddech chi, y landiodd hi ym moto Waunfawr?

GARTH MAELOG

PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes bychan
Pysgod dwr oer
Offer pysgota



Molchi, cribo a chlipio
cwn a chathod
o bob math
gan arbenigwr

STRYD FAWR, LLANBERIS 870840

TRIN GWALLT YN EICH CARTREF
MERCHED ★ DYNION ★ PLANT

Lynette Evans
GARNET, LLANRUG
Ffôn: 673981/675807



Wedi clywed am y 'Nine o'clock Service' yn Sheffield aeth un wraig i'r capel yn Llanberis erbyn 9 o'r gloch y bore Sul wedi troi'r cloc (a hynny am yr ail flwyddyn yn olynol). Rhy for, fira!



SIOP GREFFTAU A CHAFFI ANTUR WAUNFAWR

Basgedi Blodau Sych ★ Siwtnei
Jams ★ Briwgig ★ Siampw,
Clustogau ★ Ewyn Baddon
Olewon Aromatherapi

Teganau Meddal ★ Mobiles Pren

Ar agor LLUN — GWENER 9 a.m. - 4 p.m.



Yr hyn a ddenai sylw'r holl ymwelwyr â'r arddangosfa oedd y casgliad anhygoel o goed bonsai gan John Tilston. Mae wedi ymddiddori yn y grefft hynafol hon (crefft sy'n wreiddiol o Japan) ers blyneddau lawer. Roedd un goeden dderw yn y casgliad chwarter canrif oed, ond prin ddwy droedfedd o uchder.

CREFFTWYR LLANRUG yn arddangos eu doniau

Dydd Sadwrn, Hydref 21ain, yn Neuadd Ysgol Gynradd Llanrug, cynhaliwyd ail arddangosfa o waith crefftwyr lleol yr ardal. Bu'r arddangosfa y llynedd yn eithriadol o lwyddiannus, a phenderfynwyd ei chynnal fel achlysur blynyddol a fyddai'n rhoi cyfle i wahanol grefftwyr arddangos eu dawn a'u gallu. Noddir y diwrnod gan Gyngor Cymuned Llanrug ac yr oedd elw'r diwrnod yn cael ei gyflwyno i Gronfa'r Ganolfan.

Mae'r lluniau ar y dudalen yn rhoi peth o flas y diwrnod, ond i'r rhai hynny a fu mor anffodus a methu ymweld ar y diwrnod, fe fydd yn rhaid i chwi ddisgwyl hyd fis Hydref 1996 am y nesaf.



Arbenigedd Julie Jones yw hen grefft a elwir yn gwlisennu. Mae bellach yn awdurdod ar y grefft, ac yn dysgu eraill sut i'w defnyddio. Mae ei gwaith wedi ennill nifer o wobrau, ac wedi ymddangos mewn sawl arddangosfa ledled Cymru.



Tair aelod o'r Cylch Pwyth Croes — Eirianwen Thomas, Ann Lloyd Griffith ac Elisabeth Hughes — gydag amrywiaeth eang o samplari, lluniau, cyfarchion bedydd, pen-blwydd, priodas a chardiau Nadolig a chyfarfarch. Mae'r grŵp yn cyfarfod yn rheolaidd bob pythefnos gydol y flwyddyn.



Elen Roberts a'i mham gyda chyfran o gasgliad enfawr o waith gwnïo gan gynnwys teganau meddal o bob lliw a llun — ac yn denu sylw'r plant (a'r neiniau!) ar unwaith. Anrhegion Nadolig unigryw!



Amrywiaeth helaeth o flodau sych wedi eu gosod mewn basgedi oedd ar stondin Judy Roberts. Mae bellach yn tyfu a sychu'r blodau ei hun, ac yn paratoi'r deunydd gorffenedig ar gyfer addurno gwahanol achlysuron arbennig.



Gwyndaf Jones, Clerc y Cyngor Cymuned, yn arddangos peth o'i waith turnio coed, gan gynnwys clociau, powlenni a dysglau. Ond y ceffyl pren oedd yn tynnu sylw'r plant ar y stondin hon.

Alwyn a Sarah Jones

RACCA
PENISARWAUN

★ Blodau ar gyfer pob achlysur

hefyd

★ Dewis da o Lysiau Fferm.

★ Wyau 'Free Range'
Ar agor saith diwrnod



870605

**LLYSIAU AR
GYFER PICLO**

GORSAF BETROL



BERAN

DEINIOLEN.

Ffôn: Llanberis 871521

Ar agor 7 a.m. – 9 p.m. bob diwrnod
Petrol ● Disel ● Nwy Calor ● Glo
Cylchgronnau ● Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd ● Wyau
Nwyddau Groser ● Melysion

Cyfle i ennill £10 bob wythnos i bawb sy'n prynu petrol

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. 870580

Camera yng ngofal Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug. Ffôn: 677263

Priodas: Ar Fedi'r 2il yng Nghapel Soar, Penygroes, priodwyd Medwen, merch Mrs Megan Jones a'r diweddar Mr D. O. Jones, Greuor Villa ag Endaf Aled, mab Mr a Mrs Elwyn Jones Griffiths, Y Garnedd, Penygroes. Byddant yn ymgartefu yn Delwen, 4 Dyffryn Terrace, y Groeslon. Llongyfarchiadau oddi wrth y ddau deulu.

Dymuna Medwen ac Aled ddiolch o galon i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl anrhegion, arian a'r cardiau ar achlysur eu priodas yn ddiweddar.



Genedigaeth: Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Islwyn Jones ar ddod yn daid a nain. Ganwyd mab bychan i'w merch Marian a'i phriod Michael, sy'n cartrefu yng Nghaernarfon.

Cymdeithas y Chwirydd: Cyfarfu'r gymdeithas yn y Ffestri, nos Iau, Hydref 5ed, dan lywyddiaeth Mrs Ifanwy Jones, Rhandir. Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan Mrs Jennie A. Roberts, 2 Ffrwd Madog. Croesawodd y llywydd y gŵr gwadd am y noson, sef Mr David Williams, Bethel. Cafwyd noson gartrefol a diddorol yn ei gwmni yn dilyn gwahanol gyfnodau yn ei fywyd — ei wreiddiau yn Llangaffo, Ynys Môn, ond wedi treulio ei oes yn Crosby, ger Lerpwl, hyd ei ymddeoliad yn ddiweddar. Trwy

gymorth darluniau ac arteffactau, rhoddodd adroddiad cynhwysfawr o'i ymweliadau â nifer o gyfandiroedd mewn perthynas â'i alwedigaeth. Diolchwyd iddo gan Mrs Elen George, Sŵn yr Engan, a hynny yn addas iawn gan ei bod hithau yn hannu o Langaffo. Paratowyd y baned gan Mrs Eirlys Williams a Mrs Euronwy Roberts. Diolchwyd i'r chwirydd a fu'n casglu tuag at Gymdeithas y Beiblau yn y pentref. Gwnaed casgliad o £61.20. Trefnwyd i gymryd rhan yn yr ymgyrch leol i baratoi blychau anrhegion ar gyfer plant Bosnia.

Hwn oedd cyfarfod olaf y tymor. Edrychir ymlaen am ail-ddechrau'r cyfarfodydd yn y gwanwyn a threfnwyd y rhaglen am y tymor. Ail-etholwyd y swyddogion presennol ar gyfer y flwyddyn nesaf — Llywydd: Mrs Ifanwy Jones; Ysgrifennydd: Mrs Jennie Hughes; Trysorydd: Mrs Elen George.

Cofion: Anfonwn ein cofion cynhesaf at Mrs Betty Owen, Tros yr Afon, sydd heb fod yn rhy dda yn ddiweddar. Dymunwn ddychweiliad buan gartref iddi o Ysbyty Gwynedd.

Yr Ŵyl Ddiolchgarwch: Cynhaliwyd oedfa o ddiolch yng Nghapel M.C. Brynrefail nos Sul, Hydref 8fed. Daeth cynulliad cryno ynghyd ac roedd y gwasanaeth dan ofal Mr Gwyn Hefin Jones. Cymerwyd rhan gan Mr Richard W. Evans, Mrs Lowri P. Roberts-Williams, Mrs Ifanwy Jones, Mrs Jennie A. Roberts, Miss Amy Lambert, Mrs Jennie Hughes, Mr Norman Williams, Mrs Ellen George, Mrs Dwynwen Williams, Miss Elen Williams a Miss Einir Gwyn.

Trefn yr oedfaon am y Suliau nesaf:

TACHWEDD

- 12: Parchg John Owen, Bethesda (5.30)
19: Mr William Lloyd Davies, Bangor (5.30)
26: Parchg John Owen, Bethesda (5.30)

RHAGFYR

- 3: Parchg S. O. Hughes, Bethel (10.00)

GŴYL DDIOLGARWCH 1995

Yn hwyr deurn yn dirion — a'n gweddi

Yn gweddu yn burion;

Gwefr y llu ag efrau llon,

Y cyffur dynha'r cyffion.

R.L.I.J.

DINORWIG

Glyn Tomos, Pen y Bwlch, Ffôn: 870576

Croeso i David a Karen Worth i'w cartref newydd yn Minffordd, a dymunwn yn dda iddynt ar eu priodas yn ddiweddar. Daw Karen yn wreiddiol o Garmel a David o Clwt-y-bont.

Dymuniadau Da i Mrs M. Fleming, 1 Maes Eilian, sydd wedi symud i fyw i Ddeiniolen yn ddiweddar. Dymunwn pob hapusrwydd i chwi yn eich cartref newydd.

Marwolaeth: Tristwch mawr i aelodau capel Sardis oedd marwolaeth Mary Ellen Jones, Ty'n Fawnog, ar 23 Medi, yn 97 mlwydd oed. Hi oedd aelod hynaf y capel. Bu farw yn dawel yng Nghartref Nyrsio Penisarwaun ble y cafodd ofal a chariad mawr dros y misoedd y bu yno, ac yr oedd gofal arbennig a gafodd gan ei merch am flynyddoedd yn rhyfeddol.

'Anti Mary' oedd hi i bawb yn y gymdogaeth. Er iddi fod wedi ei chaethiwo i'w chartref am flynyddoedd maith roedd ei diddordeb yng ngwaith y capel a'r ardal yn ddi-feth. Byddai ei gwên hyfryd yn donic i bawb, ond tristwch

mawr oedd y ffaith i'r clefyd Alzheimer roi terfyn ar y cof arbennig a'r wybodaeth oedd yn ei meddiant.

Bu'r angladd ar 28 Medi gyda gwasanaeth yn Sardis, a'r Parchgyn Olaf Davies (gweinidog y capel), Ifor L. Williams, William J. Lewis a Gwilym Parry yn gwasanaethu. Cafwyd teyrnged gymeradwy iddi gan y Parchg Ifor L. Williams (cynweinidog). Rhoddwyd ei chorff i orffwys ym mynwent Macpelah, Deiniolen. Dymunwn ddatgan ein cydymdeimlad llwyr a'i merch, Ellen Wyn, gan ddiolch iddi am y gofal tyner a roddodd i'w mham.

Diolch: Mae Ellen Wyn Jones, Ty'n Fawnog, yn awyddus i ddiolch yn fawr iawn i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddi yn ei phroffedigaeth o golli mam annwyl. Diolch yn arbennig am y rhoddion hael tuag at waith ymchwil i glefyd Alzheimer, am bob cymorth a gafwyd gan deulu a ffrindiau, ac am y gofal a'r cariad a dderbyniodd ei mam gan nyrsus yr ardal, gofalwyr, staff Ysbyty a Chanolfan Dydd Minffordd, a holl staff Cartref Nyrsio Penisarwaun.

DRAENOG



Gwraig o Lanberis yn mynd i Ysbyty Gwynedd i weld ei gŵr. Anelu yn syth am y gŵr urddasol efo sbectol a gwallt gwyn a'i gyfarch efo cusan — cyn sylweddoli nad ei gŵr mohono! Yn rhyfedd iawn roedd y dyn diarth hefyd yn hannu o Lanberis. Dyna'r cynhyrchiad rhyfeddaf i'r gŵr bonheddig hwn o fyd y ddrama! Ac am y gŵr — roedd clywed y chwerthin iach o'r ward nesaf gystal tonic ag unrhyw ffisig a baratowyd ganddo dros y blynyddoedd.

NANT PERIS

Elwyn Searell Jones, Dwyfor
Ffôn: 870440

Dymuniadau gorau i Gwilym ac Alice Searell Jones, Gwynant, 4 Nant Ffynnon, ar ddathlu eu Priodas Aur yn ddiweddar. Hefyd dymunwn yn dda i Gwilym ar ddathlu ohono ei ben-blwydd yn bedwar ugain oed ar ddiwrnod Guto Ffowc.

Dymuna Gwilym ac Alice Searell Jones ddiolch am y cardiau, anrhegion a'r galwadau ffôn a dderbyniasant oddi wrth berthnasau a ffrindiau ar achlysur dathlu eu Priodas Aur.

Cydymdeimlwn â theulu y ddiweddar Blodwen Williams, Penybryn gynt, a fu farw, yn 96 mlwydd oed, mewn cartref preswyl yn y Bontnewydd.

Diolchgarwch: Cynhaliwyd oedfa Ddiolchgarwch capel Rehoboth, ddydd Sul, 22 Hydref. Cymerwyd rhan gan blant yr Ysgol Sul. Roedd Elfyn Williams, Dafydd Pritchard a Hefin Pritchard yn cymryd rhan hefyd. Arweiniwyd yr oedfa gan y gweinidog.



GWÊL Y LLYN

Lake View
Hotel
LLANBERIS
870422

Prydau Arbennig
ar gyfer partïon

Byddai perchnogion
a staff y gwesty yn
falch o'ch croesawu
ar gyfer dathliadau
o bob math.

Siop Trin Gwallt
SANDRA
Stryd Fawr
DEINIOLEN
Ffôn: 872112

- Ar agor bob diwrnod o'r wythnos
- Prisiau arbennig i bensiynwyr

OSMOND SHAW DEINIOLEN

GWERTHU
— TRWSIO
★ Teledu
★ Fideo
★ Offer Trydan
Gwasanaeth
Ffôn 24 awr
LLANBERIS 870545

IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd
DEINIOLEN
Llanberis 870484

- ★ Bysiau o 12 i 53 sedd
- ★ Teithiau Lleol a Thramor
- ★ Gwaith Contract
- ★ Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr

Camera yng ngofal Heulwen Huws, Argoed (650556)

Enillwyr Clwb Cant am fis Medi — £40: Hilda Bradshaw, Castle View; £25: Mrs Jenifred Jones, Glyn Ceris; £10: Dr H. Roberts, Hafoty, Rhosbodrual.

Genedigaeth: Llongyfarchiadau i Huw Ynyr ac lola ar enedigaeth eu merch fach, Erin Ynyr; ac i Rob ac Alma Jones, Tan-y-fron, ar ddod yn daid a nain am yr eildro. Croeso i Huw a'r teulu yn ôl i fyw i'r Waun a dymunwn pob hapusrwydd ichi yn eich cartref newydd, Dolwar Fach.

Dathlu Priodas Rhuddem: Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Mr a Mrs Rol Williams, Ardwyn, ar ddathlu eu priodas rhuddem. Llongyfarchwn Mr a Mrs H. O. Jones, Glaslyn, hwythau hefyd wedi dathlu eu priodas rhuddem yn ddiweddar.

Dathlu Pen-blwydd: Llongyfarchiadau i Diane Davies, Hyfrydle, a Claire Pitman, 12 Ael-y-bryn, bu'r ddwy yn dathlu cyrraedd eu 21 oed yn ddiweddar; ac i Mrs Lloyd Williams, Bryn Meredydd, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 90 oed.

Enill Taith: Llongyfarchiadau i Eurwyn Thomas, Tref Eilian, a'i frawd am fod yn fuddugol ar y rhaglen cwis 'Tri Dimensiwn' ar y teledu.

Yn yr Ysbyty: Anfonwn ein cofion cynhesaf at Mr Morris Lewis, Tŷ Newydd, sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd.

Adref o'r Ysbyty: Croesawn Mrs Mary Davies, Bryn Eithin; Mrs N. Roberts, Tref Eilian; Mrs Glyn Williams, Tref Eilian; a Mr John Elwyn Roberts, Glaslyn, Bro Waun, adref o'r ysbyty gan ddymuno gwellhad buan iddynt.

Cydymdeimlo: Cydymdeimlwn â Mr W. Jones, Graianfryn, yn ei brofedigaeth o golli ei fam.

Priodas: Llongyfarchiadau i lola Peredur, mab Iestyn a Brenda Jones, Tŷ Ni, ar ei briodas â Jennifer Solanics o'r Unol Daleithiau yn ddiweddar.

Diolch: Dymuna Mrs Sheila Roberts, Llwyn Celyn, ddiolch i'w theulu, cymdogion a'i ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniodd yn ei phrofedigaeth o golli ei mham.

Bedydd: Yng nghapel Bethel, gyda'r Parchg S. O. Hughes yn gweinyddu,

bedyddiwyd Catrin Heledd, merch fach Rhian a Clive, Stad Tŷ Hen.

Y Gymdeithas Lenyddol: Dechreuir y tymor nos Lun, 30 Hydref, am 7.30 o'r gloch yn Y Ganolfan. Ceir noson ysgafn o 'Adloniant a Chân' gan barti o Bwllheli, o dan arweiniad Mr Griff Owen. Llywydd y noson fydd Mr Gwilym Williams.

Mae rhaglen amrywiol a diddorol wedi'i threfnu ar gyfer y tymor a bydd croeso cynnes i aelodau hen a newydd. Tâl aelodaeth am y tymor fydd £2, ond mae croeso i bawb ymuno â ni yn y noson agoriadol am dâl o £1 (plant 50c).

Da yw clywed fod ein cynysgrifennydd, Mr Rol Williams, yn gwella a dymunwn wellhad llwyr a buan i lywydd y pwyllgor, Mr lola Huws-Roberts.

Bydd ail gyfarfod y tymor nos Lun, 20 Tachwedd, a'r gŵr gwadd fydd Mr Alwyn Evans, Caernarfon, yn rhoi sgwrs inni am 'Marconi'.

Eisteddfod Ardal Waunfawr: Oherwydd newidiadau a wnaed yn nhrefn dosbarthiadau'r ysgol eleni hoffem egluro mai'r hyn a olygir yn y testunau yw:

'Dosbarth Mrs Ellis' = Blwyddyn 1 a 2.

'Dosbarth 1 a 2' = Blwyddyn 3 a 4.

'Dosbarth 3 a 4' = Blwyddyn 5 a 6.

Antur Waunfawr: Nos Sadwrn, 14 Hydref, sef noson Ras Antur Waunfawr, cynhaliwyd noson o ganu gwerin fywiog iawn yn Snowdonia Parc, Waunfawr. Daeth

y grŵp gwerin lleol 'Pigyn Clust' a'r grŵp newydd o Sir Aberteifi, 'Hergwd' i roi noson o ddiddanwch i bentrefwyr Waunfawr.

Gwnaed elw o £134 i Antur Waunfawr ac yn ychwanegol fe gyflwynwyd siec i Menna Jones, Antur Waunfawr, o £110 gan griw o feicars lleol — y 'Stoney-broke Party Posse' — a oedd wedi cynnal raffl bythefnos ynghynt yn y Snowdonia Parc. Gobeithio y gwelwn fwy o nosweithiau tebyg a fydd yn dod â chriw Antur Waunfawr a phobl y pentref at eu gilydd i fwynhau eu hunain.

Merched y Wawr: Agorwyd y tymor

newydd o dan arweiniad Cadi Jones a chroesawodd bawb yno, yn aelodau hen a newydd.

Bu trafodaeth ynglŷn â'r cinio Nadolig; dewis aelodau ar gyfer sawl pwyllgor; yn ogystal â chyfeirio at bob math o hysbysebion.

Am weddill y noson bu Dafydd Iwan yn diddannu'r gangen gyda'i hanes fel canwr a'r dylanwadau a phrofiadau amrywiol sydd wedi dod i'w ran dros y blynnyddoedd. Cafwyd sawl cân ganddo i ddiweddu'r noson a diolchodd Gill Wyn iddo ar ran yr aelodau. Cynhelir y cyfarfod nesaf nos lau, 26 Hydref, gydag ymweliad â Stiwdio Barcud.



Cyflwyno'r siec i'r Antur.

'Fala, fala, filoedd . . .'

Bu cnwd eithriadol drwm o ffrwythau eleni, ac yma, mae *Garddwraig* yn awgrymu dau ddull o wneud defnydd o'r holl afalau yn eich gerddi . . .

SIYTNÍ HAWDD

Gellir bwyta hwn yn syth heb ei gadw. Cefais y riset gan John Roberts a oedd yn dysgu garddwriaeth yng Ngholeg Madryn (cyn bod sôn am Glynllifon).

Dyma'r cynhwysion: hanner peint o finegr; 4 owns o nionod; 6 ownd o fala; hanner llond lle dê o sunsur; mymryn o nytmeg; pinshiad o cayenne, hanner llond llwy de o fwstard; 2 owns o siwgr brown — a phinshad o halen, wrth gws. Cewch roi mwy o siwgr bron os oes gennych ddant melys.

Malu'r afalau a'r nionod yn fân a'u berwi yn y finegr a'r siwgr nes bydd y cyfan wedi meddalau. Yna, ychwanegu popeth arall a'i ferwi'n araf nes bydd y cyfan wedi twchu. Mae'n barod i'w fwyta yn oer.

SEIDR SYML

Chwe chwart o ddŵr (mewn padell fawr os yn bosibl). Torri'r afalau (heb eu plicio) a'u rhoi i fwydo yn y dŵr am wythnos, gan ofalu rhoi tro iddynt bob bore a nos. Yna, eu hidlo, ac ychwanegu sudd a chroen tri lemwn, a dau bwys o siwgr. Eu troi eto nes bydd y siwgr wedi toddi. Eu hidlo eto am y tro olaf, a thywallt y seidr i boteli gan ofalu rhoi corcyn tynn arnynt. Bydd gwell blas o'i gadw am sbel — hyd at y Nadolig efallai!

DRAENOG



Glywsoch chi am ŵr o Frynrefail, tra ar ei wyliau yn Corsica ym mis Medi, a gafodd drafferthion mewn cawod hynod o gul. Ni wyddai'r geiriau Ffrangeg am 'boeth' ac 'oer' gan droi'r tap berwedig o boeth ymlaen. Llosgodd ran flaenllaw o'i gorff, a bu'n rhaid i'w wraig ac yntau gael dau wely sengl am weddill yr wythnos!

GERAINT OWEN

Gosodwr carpedi a phob math o loriau

Cil-y-Mynydd
WAUNFAWR

Ffôn: Waunfawr
650552

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR

Ffôn/ffacs: 650291



Dewis eang o Welyau a '3P/Suites'. Lleni 'Venetian' a Llenni 'Roler' 5,000 llathen sgwâr o garpedi mewn stoc — allwch chi fforddio prynu o batrymau?

GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK

Ar Agor
9-7pm
9-5pm Sadwrn
Ar Gau
Sul a Mercher

Aled Jones

Peiriannydd
Gwres Canolog
a Phlymio

Y GORLAN
FFRWD CAE DDU
BONTNEWYDD
(01286) 830412

TAITH LUCY DAVIES

gan Y GWALCH

Ym mhen draw y rhodfa ym mynwent Llanddeiniolen, ar y tro, mae yna fedd amheuthun ei drwsiad: Gwyddfau y Parchedig Edwin Hughes, cyn-giwrad y plwyf, a'i wraig Lucy, a'i goroesodd o gryn ddeugain mlynedd. Merch i'r Rheithor Daniel Davies oedd hi, a chyfeilles fy mam, a oedd yn trigo yr ochr groes i'r fynwent o'r Rheithordy yn Nhy Llan Isaf o dan yr eglwys ym mlynnyddoedd olaf yr hen ganrif.



Y Parchedig Edwin Hughes a'i wraig Lucy.

Roedd Lucy Davies (dyna a fynnai fy mam ei galw i'r diwedd) yn ferch ddiwylliedig a hyddysg yn y clasuron, yn cymryd rhan helaeth yng ngweithgareddau'r Eglwys ac yn gerddor. Yn y cyfnod hwnnw roedd hi yn efrydydd yn y brifysgol.

'Does gen i ddim ond cof amdani yn llawer diweddarach yn ei hoes, yn byw yn wedd mewn tŷ o'r enw Awelfryn, uwchben y Felinheli, yn mwynhau golygfeydd eang o Fôn a'r Fenai, a'r gorllewin hyd at y bariau. Byddwn yn cerdded yno yn ôl a blaen gyda fy mam gan gludo cynnyrch o'r hen ffarm.

Yn ystod y blynyddoedd roedd Lucy Davies wedi mynd dros gof, fel mae'r meirwon ond gan eu hanwyliaid, nes i mi ganfod, ymysg pethau fy mam, lyfryn o'i gwaith. Hanes taith ydyw a wnaeth mintai o'r brifysgol i'r Swisdir yn 1888. Mae'r oll yn Saesneg mewn ysgrifen gelfydd ond un anodd ei datrys. Yn y cefn mae map mewn pin ac inc.

Wedi dehongli'r gwaith credais y byddai yn werth cyhoeddi darnau ohono, pe bai dim ond er mwyn cael cymharu'r arferion a'r safonau a berthynai i'r oes a'r rhai presennol sydd wedi cyfrannu cymaint tuag at ddryllio cymdeithas wâr.


Roeddem yn ddeugain o bererinion yn cynnwys Mr Reichel ein cyfarwyddwr, tri ymwelydd, pedwar athro, a deuddeg ar hugain o ddisgyblion. Ar ddydd Sul y 15ed o Orphennaf rhoddodd Mr Reichel i ni amlinelliad o'r daith a fwriadem ei gwneud. Ar yr un pryd cymhellodd ni i beidio ymdebygu i'r mwyafrif o ymwelwyr â'r Swisdir brydferth, ond yn hytrach i fintai o ddisgyblion Cristnogol yn teithio ynghyd i edrych ar gelfyddyd Duw, a'i werthfawrogi Ef yn dangos Ei ogoniant. Roeddem i fod i gychwyn ar y deuddegfed ond gohiriwyd ein hymadawiad am ddiwrnod gan fod

y tywydd yn annhydrin. I'n mawr siom roedd dydd Gwener, y trydydd ar ddeg o Orffennaf, hefyd yn wlyb a phenddu ac roedd yna rai yn ein plith yn ddigon ofergoelus i amau priodoldeb cychwyn ar y fath ddyddiau anaddawol. Ond gwawdiodd ein cyfarwyddwr da y fath syniadau gyda gwên, ac ymddangosodd yn ein plith gyda'r fath wynebpryd llawen (ac yn gwisgo hen het ffelt a fyddem yn ei haddurno yn ddyddiol ag Alpenrose ac Edelweis), fel yr oeddem wedi ymgynyll yn y fynedfa, a gyda'r fath esiampl o'n blaenau, nis gallem beidio â chychwyn yn obeithiol a llawen. Gofynnodd Mr Reichel i'r Iesu, ar weddi, fynd gyda ni fel y byddai ein taith yn fendith. Testun y dydd oedd Hosea 13:5; a'r Actau 6:15...

Gadawsom orsaf Cornaux am 7.35 a.m. in Bienville lle cawsom drên i Berne, y brifddinas. Ar ôl pryd aethom ymlaen i Thune ac yr oedd y tirwedd yn dod yn fwy diddorol. Cawsom ein cip cyntaf ar yr Alpau a gwelsom Niessen oedd yn gwisgo ei gap tra yr oeddem yn lithro yn y stemar i lawr llyn Thune. O'r fan honno gwelsom gastell Chartreuse. Yn Neuhaus aethom eilwaith ar y trên i Interlaken. Mae'r trênau hyn yn ddau ddec ac yn agored fel y gall y teithwyr fwynhau'r olygfa. Mae Interlaken yn Feca i dwristiaid. Mae'r enw yn tarddu o glwysdai Awgwtinaidd a sefydlwyd yn 1130. Aeth Mr Reichel â ni i weld y stalacmites yn Ogof Jungfraukesse. Wedyn buom mewn cyngerdd yn y Kursaal. Bore wedyn roedd Interlaken yn foddfa o heulwen, ac anghofiaf i fyth fy ngolwg gyntaf ar y Jungfrau; mor bur, mor wyn: Brenhines yr Oberland. Cawsom wedyn ein cludo i fyny dyffryn y White Lutschine i Hauterbrunn, a chawsom aros yn yr Hotel Staubach gyferbyn â'r rhaeadr enwog. Mae'r dŵr yn tasgu yn ddwy ffrwd o graig 925 troedfedd o uchder, ac yna maent yn uno i wneud un golofn fawr yn yr awyr a honno yn chwlu i filiynau o ddiferion sydd yn ymddangos fel llwch arian, ac yn rhoi i'r rhaeadr ei henw. Ar ôl cinio cychwynasom ar droed am Mirren. Roedd hyn yn golygu dwyawr a hanner o ddringo caled, ond cawsom ein gwobr wrth weld yr olygfa. Gwelsom pyramid y Jungfrau a'r Silverhorn, ei gystadleuydd. Niod yw'r mynydd yma bellach, fodd bynnag, yn haeddu ei enw: mae tirlithriad wedi hagru ei wynder ar un ochr. Roedd y rhain wedi eu hamgylchynnu â mynyddoedd godidog, ac er mor flinedig yr oeddwn y noswaith honno, anodd oedd gadael yr olygfa o dan y lleuad ac ymddeol i'r chalet i gysgu...

Bore canlynol, y Sul, dywedodd Mr Reichel ei fod yn bwriadu cynnal gwasanaeth ar gopa'r Luntli, a bod gennym waith dringo caled o'n blaenau. Cychwynasom ar ôl brecwast, pob un a'i 'Alpenstock'. Roedd hi'n anodd ond mwynhaol. Mae'n debyg ein bod oddeutu chwech i saith mil o droedfedd gan ein bod wedi dod i'r eira. Roedd yno

Cefnogwch ein Hysbysebwy



Tudalen o ddyddiadur Lucy Davies.

hefyd amrywiaeth o flodau'r Alpau fel rhyssynau a gentians, dryads, ac amryw ffurfiau o saxifrages ac orchids. Roedd yn rhaid troedio yn ofalus mewn llawer man gan fod yna ddiffwys aruthrol i'r chwith. Ar ôl cyrraedd y copa cawsom hoe, ac yn y distawrwydd wedi ein hamgylchynu gan y mynyddoedd gwyn mawreddog a rhuad ambell avalanche bell, dechreuodd Mr Reichel y gwasanaeth drwy ddarllen testun y dydd: 'Mae Arglwydd y lluoedd gyda ni. Duw Jacob yw ein hamddiffynfa'. Roedd yr adnod yma mor addas i ni ar y pryd; y rhai a oeddem yn teimlo mor bitw a diamddiffyn yng nghanol y fath fawredd, a daeth yr ail adnod a chysur melysach, 'Ni ddeuthum i alw'r cyfiawn, ond y pechaduriaid i edifeirwch'. Nis gallai'r mwyafrif anffyddiog yn ein mysg ond cydnabod cariad y Creawdwr a wnaeth hyn i gyd. Cawsom ein cinio ar y ffordd i lawr. Daeth y trigolion â llefrith i ni mewn potiau mawr pridd o wneuthuriad cyntefig, a gorfodwyd ni ei yfed o rai llai o'r un gwneuthuriad, wedi ei gwneud yng nghantref Berne. Roedd cenfaint o foch hefyd yn cael eu bwydo gerllaw, a daethant i'n plith i chwilio am chwaneg...

Daethom at safle cwmp avalanche a oedd wedi gorchuddio'r afon fel yr oeddem yn gallu cerdded arni i'w chroesi. Roedd yn drueni gweld cymaint o goed a oedd wedi cael eu rhwygo gan y ddisgynfa...

Yn Grindelwald cefais fy nghaethiwo i'm hystafell gyda phoenau neuralgia dirdynol. Roedd hi'n tywallt y glaw, ond aeth y gweddill allan i weld afon rew gan ddychwelyd yn domen...

Roeddem erbyn hyn yn y Swisdir Babyddol a chawsom ein hatgoffa o'r ffaith pan lanwyd y trên unwaith eto gan dorf a gynhwysai fyneith ac offeiriad. Deallais eu bod ar bererindod. Oddi wrth eu gwisgoedd a'u hymddygiad gallasai rhywun

ddychmygu ei hun wedi mynd yn ôl dri chan mlynedd mewn amser...

Mae Lucerne mewn sefyllfa brydferth ar fae y llyn. Mae'r Lion Monument yn y Glacier Garden yn coffau wyth gant o filwyr gwarchod Louis XVI, a laddwyd tra'n amddiffyn y Tuilleries adeg y Chwyldro Ffrengig...

Roeddem wedi gobeithio esgyn Mynydd Peilat (6565 troedfedd), ond rhwystrwyd ni gan y tywydd. Ymysg y damcaniaethau a adroddir am darddiad yr enw mae un yn sôn am Peilat yn crwydro mewn edifeirwch wedi'r Croeshoeliad ac iddo esgyn y mynydd a thafu ei hun i'r llyn islaw. Mae ei ysbryd yn cyniwa'r yn y dyfroedd...

Ar fore'r ugeinfed aethom ar hyd llwybr rhyw ddwy fil o droedfeddi uwchlaw'r llyn i Gapel Tell. Mae'r capel yn sefyll ar graig ar yr hon yr oedd Tell wedi neidio wrth ddianc rhag Gesler...

Nid oedd y siwrne yn ôl o Lucerne mor ddiddorol. Yr oeddem yn fuan wedi gadael yr Alpau ac wedi cyrraedd gwlad Jura a oeddent yn edrych fel corachod o'u cymharu. Roeddem yn dra balch o gyrraedd Montmirail annwyl drachefn gan ein bod yn dyheu am orffwys, ar ôl naw diwrnod o grwydro, yn ystod pa amser yr oedd ein cynneddfau corfforol a moesol wedi eu hymarfer i'r eithaf. Rwy'n credu ein bod i gyd yn well o fod wedi mynd, a chodasom ddwylo o werthfawrogiad i Dduw am roi inni'r cyfle o weld rhan o'r rhyfeddodau a wnaed gan ei ddwylo. L.D. 1888

* * * *

Wedi darllen y cofnod all rhywun ddim peidio a theimlo'r naws o barchedig ofn a oedd yn meddiannu'r meddwl wrth weld eangderau'r cread. Roedd adwaith y teithwyr (yn enwedig felly merch y Rheithordy) yn dangos cydnabyddiaeth yr oes o rhyw Allu y tu hwnt i'r meidrol. Rhaid cofio hefyd fod hyn wedi digrwydd dros gan mlynedd yn ôl ac nad oedd y fintai wedi eu paratoi na'u cyflyrru drwy gyfrwng radio na theledu i wynebu'r dieithrwch oedd o'u blaenau, ac mai taith unwaith mewn oes oedd hi i'r mwyafrif, ac nid un flynyddol.

Yn ddiweddar gwelais bamffledyn twristaidd o'r Bernese Oberland, yn rhestru'r holl atyniadau gwyliau, y trefydd ac agweddau'r tir o'u cwmmpas, yn y fath fanylder ac mewn dull nad oedd angen i neb fynd dros ei drothwy i gael gwybodaeth amdanynt. Yr oll wedi ei ddylunio mor drwyadl nes gwneud i famp inc Lucy Davies ymddangos fel llun cyntefig ar fur ogof. Beth ddywedai hi a'i chymdeithion?

Dychmygwch lond siarabang o griw cyfoes, gyda'u sgîs a'u hoffer, a'u bryd ar yr un ardal yn mynd i weddi cyn cychwyn ar eu taith. Gwared y gwirion!

DRAENOG



Glywsoch chi'r stori am yr un gŵr o Frynrefail a aeth i Sardinia am ail wythnos o'i wyliau. Rhaid dweud fod ei Eidaleg yn dipyn bach gwell na'i Ffrangeg gan ei

fod yn dweud 'molto bene' a 'bella signorina', a geiriau tebyg, wrth y merched del oedd yn gweini yn y gwesty. Ond ni fu gwybodaeth o'r iaith o help iddo pan eisteddodd ar wal i gael seibiant. Pan gododd, roedd ei shorts bach gwyn yn frown tywyll. Dywedodd iddo eistedd ar 'garamelo' ond, o weld wynebau'r bobl ar hyd y ffordd yn ôl i'r gwesty, ychydig iawn oedd yn coelio'r stori.

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: 872407

Camera yng ngofal Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug. Ffôn: 677263



Gwasanaeth Diolchgarwch Ysgol Sul Bosra.

Ysgol Sul Bosra: Croesawyd tri aelod newydd, sef Ian, Sarah ac Andrew a bu'r tri o gymorth mawr i'n Gwasanaeth Diolchgarwch a gynhaliwyd bnawn Sul, Hydref 15. Testun y gwasanaeth oedd 'Derbyn a Rhoddi'. Diolchir i'r plant i gyd am eu gwaith trylwyr ac i'r holl athrawon fu'n eu hyfforddi. Croeso cynnes i Lois fydd yn ymuno â ni wedi iddi gartrefu yn 7 Bryn Eglwys. **Gwellhad:** Deallir fod Vincent Jones, Bryntirion, yn gwella wedi'i ddamwain hefo'i feic. Cymer ofal rŵan, Vincent, a brysia wella.

Croeso mawr i Marina, John Eifion, Lois ac Anest i 7 Bryn Eglwys. Gobeithio y byddwch yn hapus yma ac y byddwch yn ymuno yn yr amrywiol weithgareddau a gynhelir yn gyson.

Diolch: Dymuna Arwel Jones, 11 Bryntirion ddiolch i'w deulu, cymdogion a ffrindiau am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei ben-blwydd yn 18 oed. **Llongyfarchiadau** i Nansi a Leslie Jones ar ddod yn nain a thaid unwaith eto; a Mrs Annie Williams yn hen nain; ar enedigaeth Meinir, merch fach i Anwen ac Aled. Dymuniadau gorau i chwi fel teulu.

Llongyfarchiadau i Jonathan Richardson ar dderbyn medal fel cydnabyddiaeth i'w ddewrder yn Bosnia.

Pwyllgor Neuadd: Tynnwyd Clwb Cant mis Medi yn Sycharth a'r enillwyr oedd: 1, Sharon Owen, 7 Brynhyfryd; 2, Richard Jones, Heatherbank; 3, E. J. Williams, 2 Bryntirion. Tynnir Clwb Cant mis

Hydref yn y Neuadd Gymuned mewn noson 'Hwyl a Sbri Calangaeaf'. Dyma'r cystadlaethau oed meithrin hyd at 15 oed: 1, Jac Lantern; 2, Ysgub; 3, Mwgwd; 4, Gwisg; 5, Swynion; 6, Teisen. Y beirniaid fydd Dylan Pierce a Catrin. Bydd raffl a diod ar werth ar y noson.

Gwnaed elw sylweddol o £245 wedi'r daith cerdded llwybrau.

Bydd llyfrau raffl Nadolig ar werth yn ystod misoedd Tachwedd a Rhagfyr ac fe'i tynnir yn ystod y noson o ganu carolau o amgylch y pentref.

Yr Urdd: Mae cyfarfodydd wythnos yr Urdd wedi dechrau ar 24 Hydref pryd y cafodd y plant gyfle i ymaelodi a chwarae gêm o bingo. Mae croeso cynnes i unrhyw blentyn sydd yn 6 oed neu'n hŷn ar 1 Medi 1995 i ymaelodi am £3 am y



Y Parchg Idris Thomas yn yr Ysgol ar gyfer y Gwasanaeth Diolchgarwch.

flwyddyn '95-96. Bydd diod oren a chreision ar werth ym mhob cyfarfod am 30c. Dyma enwau'r swyddogion a'r pwyllgor fydd yn gofalu am yr Adran — Arweinydd: Mrs Rhian Roberts; Is-arweinydd: Miss Susan Williams; Ysgrifennydd: Mrs Elizabeth Jones; Is-ysgrifennydd: Mrs Delyth Williams; Trysorydd: Mrs Janice Jones. Y pwyllgor: Mrs Carolyn Roberts, Mrs Ellen Lewis a Mrs Elinor Williams.

am bobol sy'n ein helpu daeth postmon, lolo Evans, i ddosbarth Mrs Thomas yn ddiweddar i siarad hefo'r plant am ei waith. Ar ddiwedd yr ymweliad cafodd y plant gyfle i gario'r sach llythyrau trwm, ac i ymweld â'i fan goch. I orffen, ysgrifennodd y plant lythyr at y postmon i ddiolch iddo am ei ymweliad.

I gynorthwyo'r ysgol i ddathlu'r Diolchgarwch fe ddaeth y Parchg



Plant newydd yr Ysgol wedi hen gartrefu yn nosbarth Mrs Thomas.

Byddai'r pwyllgor yn falch iawn am unrhyw gymorth a allai rhywun ei gynnig gyda cystadlaethau Eisteddfod yr Urdd 1996.

Dyma'r gweithgareddau sydd wedi eu trefnu ar gyfer mis Tachwedd:

7: Cymorth Cyntaf gyda Mrs J. M. Jones, Deiniolen

14: Gêm 'Parachute'

21: Richard Lloyd Jones, Bethel

28: Gêmau'r Urdd.

Ysgol Gymuned: Fel rhan o'u thema

Idris Thomas draw i gymryd rhan yn ein gwasanaeth arbennig. Cafodd y plant fudd a phleser mawr o wrando ar Mr Thomas, a diolchwn yn fawr iddo am wneud ein gwasanaeth yn un mor arbennig.

Canolbwynt y bwrdd Diolchgarwch oedd y bocsus anrhegion fydd yn cael eu hanfon i blant llai ffodus na phlant Penisarwaun. Mae nifer wedi dod i mewn eisoes ond cofiwch fod yr apêl ar agor hyd at 27 Hydref.

Ar ddiwrnod Calangaeaf fe gynhelir Ffair Lyfrau yn yr Ysgol, i gychwyn yn brydlon am 3.30 o'r gloch hyd 5 o'r gloch. Cofiwch droi i mewn i'n cefnogi.

Bellach mae'r plant newydd a gychwynnodd yma ym mis Medi (gweler y llun) wedi hen ymgartrefu yn ein plith. Er mai dim ond ychydig wythnosau sydd ers iddynt ymuno â ni roedd pob un ohonynt yn drist o weld Anti Beryl yn rhoi'r gorau i'w swydd o groesi'r plant ar draws y lôn wedi deng mlynedd o wasanaeth, a hynny ym mhob tywydd. O hyn ymlaen Anti Jean fydd yn gofalu amdanynt ar draws y ffordd. Croeso mawr i chwi, Anti Jean, a gobeithio y byddwch yn hapus iawn yn ein plith yn eich swydd newydd.

Royal Victoria Hotel

LLANBERIS

Mae'r gwesty yn darparu ar gyfer Priodasau, Partïon, Dathliadau ac Achlysuron Arbennig

Cyfleusterau Cynhadleddau a Phwyllgorau

Bwydlen Bar a Chinio Dydd Sul

Cwrw Felin Foel

Ffôn: Llanberis 870253

Made to Measure



Llenni, Gorchuddion Llac
Ffril wedi'i blethu
(bocs)

a Chlustogau
gyda zip

Amcanbris
am ddim

BANGOR

(01248) 364493

unrhyw adeg

Pencampwriaethau Rasus Mynydd Prydain yn Llanberis

Clybiau rhedeg o Loegr aeth a'r rhan helaethaf o'r gwobrau ym Mhencampwriaethau Blynnyddol y Rasus Cyfnewid ar Fynydd, a gynhaliwyd yn Llanberis ar ddydd Sul, Hydref 15fed. Dyma'r tro cyntaf i'r Pencampwriaethau hyn gael eu cynnal yng Nghymru, a Chlwb Rhedwyr Eryri oedd yn gyfrifol am yr holl drefniadau; gwaith manwl a gofalus gan griw bychan o'r Clwb a fu'n gweithio'n ddiwyd ers dechrau'r flwyddyn i sicrhau llwyddiant y diwrnod. Roedd amseru'r cyfan yn berffaith (heblaw am y tywydd!) a chafwyd diwrnod bendigedig i'r holl gystadleuwyr, gyda gwybodaeth am safleoedd ac amser y gwahanol dimau yn cael ei arddangos o fewn ychydig funudau i ddiwedd pob cymal.

Yn wahanol i'r mwyafrif o Rasus Mynydd a gynhelir ym Mhrydain gydol y flwyddyn, rasmus i dimau yn unig yw'r gystadleuaeth hon, ac felly mae'r Clybiau am y gorau yn brwydro'n erbyn ei gilydd am yr hawl o gael eu cydnabod yn brif dim y Bencampwriaeth. Mae chwech aelod i bob tîm, a phedwar cymal i'r ras. Mae dau gymal yn rasmus gweddol fyr, ond gyda dringo serth iawn yn un cymal, a rhedeg cyflym yn yr ail. Mae'r ddau gymal olaf yn galw am redeg cryn bellter, un ohonynt yn gofyn am ddringo serth, a'r llall yn gorfodi'r rhedwyr i ddefnyddio map a chwmpawd. Yn y ddau gymal olaf mae'r rhedwyr yn rhedeg fesul pâr, ac yn gorfod gorffen eu cymal gyda'i gilydd.

Daeth dros chwedeg o dimau i Lanberis, a rhai o'r clybiau cryfaf yn anfon pedwar neu bump tîm. Roedd tair cystadleuaeth ymlaen ar yr un pryd: timau dynion, timau dynion hŷn, a thimau merched. Am hanner awr wedi deg fore Sul, roedd y tensiwn yn amlwg — a chafwyd camgychwyn! Ond o'r diwedd cychwyn-nodd y cymal cyntaf gydag un cylch o gae'r Ddôl, ac amcangyfrif o bedair awr o redeg yn wynebu'r timau gorau.

Roedd y cymal cyntaf yn dilyn y ffordd heibio Rhes Fictoria cyn troi i fyny am y Ceunant Mawr, ac yna ar draws y gweundir tua Cwm Dwythwch. Buan y diflannodd y rhedwyr cyntaf i'r niwl a'r glaw mân



wrth ddringo llethrau serth yr Aelgerth a dilyn y grib dros Fraich y Foel tua copa Moel Eilio. Oddi yno, disgyn i Fwlch Cwm Cesig cyn dringo eto i gopa'r Foel Gron ac ymlaen i'r Foel Goch a chychwyn rhedeg cyflym i lawr Cefn Drum. Dod oddi ar y mynydd ger Brithdir, a dilyn y llwybr yn ôl am Lanberis. Daeth bloedd o'r dorf pan redodd Colin Donnelly o Glwb Eryri i mewn i Gae'r Ddôl yn ail, mewn amser o 55 munud 48 eiliad, a rhoi cychwyn da i'r hogia lleol.

Eilir Evans a redai'r ail gymal, gan ddilyn yr un llwybr tua Cwm Dwythwch, ond y tro hwn, yn osgoi dringo serth yr Aelgerth, ac yn parhau ar hyd y llwybr tua'r Maenllwyd. Oddi yno, dringo i Fwlch y Groes ac ymlaen drwy'r grug a'r eithin mân i gopa'r Cefn Du. Dyma

gymal cyflymaf y ras, oherwydd o'r Cefn Du, roedd y rhedwyr yn dilyn yr un llwybr ar i lawr, yn ôl i Lanberis. Erbyn hyn roedd tîm Eryri yn seithfed, ond ychydig iawn o amser oedd yn gwahanu'r deg tîm cyntaf.

Gary Rees Williams a Dei Huws dderbyniodd y baton gan Eilir, ac i ffwrdd â hwy ar y cymal map a chwmpawd. Roedd yn rhaid i bob tîm ddisgwyl i'w rhedwr cymal cyntaf orffen ei ras cyn cael gwybodaeth (a map) am y trydydd cymal. Roedd ganddynt felly, tua thri chwarter awr i weithio allan llwybr eu ras, yr wyth lle roedd yn rhaid iddynt ymweld â hwy, ac unrhyw gyfeiriannau oedd ei angen. Yn sicr, roedd gwybodaeth leol o fudd i hogia Eryri.

Yr hen gwt concrit, ger y bont dros Afon Hwch, yng Nghwm Dwythwch

gwynt atynt cyn disgyn i Fwlch Maesgwm a dringo serth eto i gopa'r Foel Goch. Oddi yno, dilyn yn groes i llwybr y cymal cyntaf, nes cyrraedd Moel Eilio a disgyn i Fwlch y Groes a'r llwybr tua'r Maenllwyd a Chwm Dwythwch. Roedd y cystadlu yn dynn iawn ar y cymal hwn, gyda'r tri pâr cyntaf o redwyr yn cyrraedd copa'r Foel Goch gyda'i gilydd. Erbyn cyrraedd diwedd y ras roedd Eryri wedi colli'r blaen, gan ddiwedd y chweched, ond roedd llai na phum munud o amser yn gwahanu'r chwe tîm cyntaf ar ôl pedair awr o rasio.

Clwb Leeds oedd yn fuddugol mewn amser o 3 awr 57 munud a 40 eiliad. Yn ail roedd Clwb Pudsey a Bramley, gyda Cymerland yn drydydd. Yn adran y dynion hŷn, doedd dim dal ar Glwb Horwich mewn amser o 4 awr 16 munud a 59 eiliad. Bu brwydro caled am yr ail a'r trydydd safle gydol y cymalau, gyda Kendal (4 awr 21 munud 18 eiliad) yn cael y blaen ar Cumberland o funud yn unig. Doedd gan dim hŷn Eryri ddim siawns o ennill wedi i dri o'u rhedwyr gorau (Don Williams, Gwynfor Owen a Phil Jones) orfod tynnu'n ôl oherwydd anafiadau, ond gwnaeth y tri eilydd waith da iawn, gan wella ar eu safle ym mhob cymal, a dod o fewn dim i gipio'r bedwaredd wobr. Ar ddiwedd y cymal cyntaf roedd y tîm yn safle 36 (seithfed tîm hŷn) wedi i Phil Llan Jones roi cychwyn da iddynt. Yn yr ail gymal rheddodd Henry Stansfield yn arbennig o dda, gan gadw'r tîm yn y seithfed safle, ond gwella'r safle cyffredinol i 34ain. Emyr Davies a Dafydd Whiteside a redai'r trydydd cymal, ac unwaith eto roedd gwybodaeth leol o fantais fawr iddynt, gan na fu angen defnyddio na map na chwmpawd. Erbyn diwedd y trydydd cymal roedd y tîm yn bumed yn yr adran hŷn, ac yn 31in. Kevin Brown ac Alan Hughes redai'r cymal olaf, a daethant a'r tîm i safle terfynol o 28ain, gan gadw'r pumed safle, o fewn ychydig funudau yn unig i dim hŷn Macclesfield. Eu hamser terfynol oedd 4 awr 41 munud a 49 eiliad.



Kevin Brown ac Alan Hughes o Glwb Rhedwyr Eryri yn croesi'r llinell derfyn.

Dyma'r Bencampwriaeth fwyaf llwyddiannus i Redwyr Eryri, gyda'r prif dim yn diwedd y chweched a'r tîm hŷn yn bumed. Maent bellach yn cael eu cydnabod fel un o brif glybiau rhedeg mynydd Prydain ac, yn sicr, yn brif glwb Cymru.

Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol

Gwasanaeth Trylwyr
gan y bobl **BROFFESIYNOL**
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i **CHWI**
Y Gwasanaeth Technegol Gorau
i'ch **CAR**. Cystal â
Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych
CHWI yn ei yrru,
o Audi i Zastava

AA
Specialist

MOT

RAC
Selected

GEMINI
SERVICE CENTRE

Car neu Fan
Petrol neu Diesel
Carb. neu Chwistrelliad

bydd ein Gwasanaeth
ni yn arbed **£££** ichwi
ac yn ymestyn oes eich car

FAVW

YSTAD CIBYN
CAERNARFON (0286) 673559

BOSCH
SERVICE

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn, Ffôn: 675384.

Camera yng ngofal Gwyndaf Hughes, Glasgoed. Ffôn: 677263

Caws a Gwin: Cynhelir noson Caws a Gwin yng Nghanolfan Hafan Elan, Llanrug, nos Wener, 24 Tachwedd am 7 o'r gloch. Bydd elw'r noson tuag at Eglwys y Plwyf.

Apêl Mynwent Plwyf Llanrug: Dymuna'r Cyngor Plwyfol Eglwysig ddiolch i bawb a gyfrannodd yn ystod y flwyddyn i Gronfa'r Fynwent. Eleni gwariwyd £850 ar y gwaith o dorri'r gwaith ac ar waith cynnal a chadw cyffredinol. Mae pawb o'r farn fod gwaith graenus iawn wedi'i wneud eleni a'r gobaith yw y caiff hyn ei ailadrodd y flwyddyn nesaf. Yn anffodus mae'r gronfa bron yn wag bellach, felly mae'r swyddogion yn gwneud apêl am gyfraniadau ar gyfer 1996. Anfoner unrhyw arian i'r trysorydd: Mrs Dilys Jones, 18 Hafan Elan, Llanrug.

Diolchiadau

Dymuna Bet Lyndale, Ffordd yr Orsaf, ddiolch i bawb am eu cefnogaeth i'r Noson Goffi a drefnodd yn ddiweddar tuag at Clwb Gateway. Gwnaed elw o £120. Diolch yn fawr iawn.

Dymuna Yvonne Pitts, Y Gelli, Ffordd yr Orsaf, ddiolch i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am yr holl gardiau a'r galwadau ffôn a dderbyniodd tra bu'n derbyn triniaeth yng Nghanolfan Feddygol Llandudno. Diolch yn arbennig i staff y Ganolfan am eu caredigrwydd.

Dymuna Cecil a Dilys Williams, 19 Hafan Elan, ddiolch yn gynnes iawn i'w teulu, cymdogion a ffrindiau am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur pen-blwydd Dilys yn 81 oed ac hefyd ar ddathlu eu priodas ddiawnt ar 14 Hydref.

Dymuna Mrs Jane Parry, 7 Hafan Elan, Llanrug, ddiolch yn ddiffuant iawn am yr ymweliadau, cardiau, a phob caredigrwydd gan feddygon a nyrsus bro tra yn cael triniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Dymuna'r teulu hefyd ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad mewn gair a gweithred yn eu profedigaeth o golli eu hannwyl frawd.

Llongyfarchiadau mawr i Mr Cecil a Mrs Dilys Williams, Hafan Elan, ar ddathlu eu priodas ddiawnt. Yn anffodus mae Mr Williams ar hyn o bryd yn yr ysbyty a dymunwn adferiad iechyd llwyr a buan iddo.

Gwella: Da yw deall fod Mr Gwilym Griffiths, Pant Tirion, wedi gwella erbyn hyn; a hefyd Mr Evan a Mrs Eurwen Williams, Bryn Gro.

Marwolaeth: Bu farw Mrs Sera Roberts, Elan Wen, wedi gwaeledd hir. Roedd yn wraig dawl ac yn hoff o aros gartref. Bydd colled fawr ar yr aelwyd a chydymdeimlwn a'i mab Elwyn, Anwen, Ceryl, Ceren, Emyr ac Einir.

Cydymdeimlwn â Mrs Helen Roberts, 2 Gwêl Fynydd, yn ei phrofedigaeth o golli ei brawd Robert J. Jones, Fferyllydd gynt o Nefyn (Post, Clwt-y-bont).

Ymadawiad: Dymunwn yn dda i Siôn Rees Williams, Y Gors, Allt Riwth, ar ei ymadawiad i lenwi swydd fel tiwtor Saesneg i staff gorsaf bŵer ar lannau'r Vistula yng ngwlad Pwyl.

Merched y Wawr: Nos Fawrth, Hydref 3ydd, aeth tua 30 o aelodau i Theatr Gwynedd i fwynhau perfformiad o 'William Jones' gan T. Rowland Hughes — addasiad llwyfan Gruffudd Jones a Valmai Jones a'r cyfarwyddwr Graham Laker. Roedd yn sioe fywiog yn llawn hiwmor a thristwch gyda set ddyfeisgar gyda'r het fowler yn tra-arglwyddiaethu. Roedd y Theatr yn llawn o drigolion bro'r Eco, gyda tua 100 o ddisgyblion Ysgol Brynrefail yn amlwg wedi'u plesio hefo perfformiad Mici Plwm o'r cymeriad hoffus a daniodd ddychymyg y genedl yn datblygu a grymuso drwy ei anturiaethau yng nghaledi cymoedd y de yn ystod y tridegau. Bu bonllef o gymeradwyaeth pan ynganwyd y frawddeg enwog, 'Cadw dy... chips'. Diolchir i Mary a Margaret am wneud y trefniadau.

Nos Fawrth, 14 Tachwedd, bydd cyfle i wyllo Mrs Cerid Mackinnon gydag 'Addurniadau Nadolig'.

Côr Clychau'r Grug: Nos Fawrth, 31 Hydref, bydd yr aelodau yn diddannu Cymdeithas Undebol Pen-y-groes. Byddant hefyd yn diddori ymwelwyr yng Ngwesty Fictoria, Llanberis, yn ystod y mis nesaf. Edrychir ymlaen am gymryd rhan yng nghyngerdd cyhoeddi'r Wyl Gerdd Dant yng Nghaernarfon. Croesawyd aelod newydd i'n plith, sef Carys. Gobeithio y bydd yn hapus yn ein cwmni. Rydym yn falch o weld Eirlys yn ôl wedi seibiant.

Ysgol Gynradd: Daeth yr hanner tymor cyntaf o'r flwyddyn ysgol i ben, a hwnnw'n un prysur. Cafodd plant Bl. 1 a 2 ymweliad gan y Parchg John Pritchard o Lanberis, ac

hefyd Ms Modlen Lynch a Lewys. Bu holi brwd ym Ml. 3 hefyd pan ddaeth Mrs Julie Hughes gyda Llion i'r dosbarth. Diolch yn fawr i'r pump ohonynt am ddod i'r Ysgol.

Ar Fedi 14 lansiwyd apêl yr NSPCC yn yr Ysgol gan Mrs Sarah Owen, a hyd yn hyn mae'r disgyblion wedi llwyddo i gasglu cyfanswm enfawr o arian — £947 — ardderchog yn wir!

Nos Lun, Hydref 2, trefnwyd noson o gêmâu i aelodau'r Urdd yn yr Ysgol gan Mrs Roberts a Ms Lynch. Caiff aelodau'r Urdd gyfle i gyfarfod eto ar y 31ain o Hydref, yn y Disgo Calangaeaf.

Bu disgyblion Bl. 6 yn casglu cyfraniadau i'r Urdd o ddrws i ddrws yn yr ardal. Defnyddir yr arian i gynorthwyo gwaith y mudiad yn darparu ar gyfer plant a phobl ifanc Cymru. Diolchir i bob un sydd wedi cyfrannu at y gronfa.

Croeso i aelod newydd o staff yr Ysgol — Miss Bethan Denham — sydd yn cynorthwyo yn yr adran fabanod. Braf hefyd oedd cael croesawu dwy o gyn-aelodau'r ysgol yn ôl, sef Jamie Scase a Delyth Humphries, sydd bellach ym Ml. 10 yn Ysgol Brynrefail. Gobeithio iddynt fwynhau eu cyfnod o brofiad gwaith.

Llongyfarchiadau i Eifion Williams, Bl. 5, ar ei lwyddiant mewn cystadleuaeth nofio yn Nhreffynnon. Mae Eifion yn bencampwr strôc y broga, Gogledd Cymru.

Ar bnawn Gwener, 13 Hydref, cynhaliwyd gwasanaeth Diolchgarwch yn yr Ysgol gyda pob dosbarth yn cymryd rhan.

Ar ôl gwyliau hanner tymor mae nifer o nosweithiau cymdeithasol wedi eu trefnu: Ffair Hydref, nos lau, Hydref 26; Noson Tân Gwyllt, nos Fawrth, Tachwedd 6; Bingo Nadolig, nos Fercher, Tachwedd 29.

Cynhelir cyfarfod blynyddol y llywodraethwyr ar nos Fawrth, Tachwedd 21.

Mae pawb yn adran y babanod yn edrych ymlaen yn fawr iawn i weld yr estyniad newydd yn cael ei gwblhau a'i ddefnyddio yn fuan ar ôl gwyliau hanner tymor.

Plaid Cymru: Nos Fercher, Hydref 11, cafwyd noson ddifyr yng nghwmni Mary Vaughan Jones. Y tro hwn De Affrica oedd dan sylw, a chafwyd hanes ei hymwelriad rai blynyddoedd yn ôl a Lesotho a De Affrica.

Yn gyntaf, cip ar y wlad fechan Lesotho, sydd o fewn ffiniau Gweriniaeth De Affrica, lle cafodd groeso gan Nan Wyn o'r Waunfawr a weithiai yno ar y pryd. Yna mynd ar saffari i ganol Parc Cenedlaethol Kruger, a gweld pob math o anifeiliaid. Yn olaf, ymweliad â Johannesburg a chyfarfod Enid

Jones (Parc Isa, Llanrug, gynt) sy'n byw yno. Pwysleisiwyd perthynas y Cymry a'r wlad a chafwyd lluniau diddorol o Pilgrim's Rest, lle'r ymfudodd nifer o Gymry lleol ar ddechrau'r ganrif hon a chyn hynny.

Diolchodd Phyllis Ellis i'r siaradwraig am noson amrywiol ac anghyffredin o ddiddorol. Enillydd raffl y noson oedd Siôn Humphreys. Cofiwch am y rhaglen deyrnged i Wil Sam yn Ysgol Brynrefail ar nos Fercher, 22 Tachwedd, a'r Ffair Nadolig gyda Siôn Corn yn yr Ysgol Gynradd ar nos Fercher, 6 Rhagfyr.

Capel y Rhos: Cynhaliwyd gwasanaeth Diolchgarwch plant yr Ysgol Sul ar fore Sul, 8 Hydref. Y pregethwr gwadd oedd y Parchg H. John Hughes, Porthaethwy.

Llanwyd un ochr i'r capel â thros 60 o blant, gyda'u harolygwyr a'u hathrawon ymroddgar a gweithgar. Cafodd pob plentyn, o'r ieuengaf hyd eu harddegau, gyfle i gymryd rhan yn y gwasanaeth. Llawnwyd oedd gwyllo'r plant yn mynd a dod i'r sêd fawr neu'r pulpud gydag urddas a gwyleidd-dra — ymddygiad teilwng o addoliad. Clod i'r athrawon a'u hyfforddodd.

Roedd y Parchg H. John Hughes wedi rhyfeddu wrth gerdded tua'r capel gan weld y dyrfa fawr o'i flaen, yn oedolion a phlant, ac yna wrth gamu i mewn i'r capel i weld golygfa hardd o flodau a chynnyrch y tir wedi eu gosod i'n atgoffa o ddaioni Duw inni, a'r cyfan yn creu awyrgylch o ddiolch.

Yna erbyn amser dechrau'r gwasanaeth roedd y capel yn llawn — teuluoedd a chyfeillion wedi dod i gydaddoli a'r plant yn cael gweld capel llawn a phrofi'r llawnwyd o weld eu teuluoedd yno gyda hwy yn gwrando arnynt yn gwneud eu rhan, a'r Parchg H. John Hughes yn llwyddo i greu awyrgylch hapus, gyfeillgar wrth sgwrsio â'r plant.

Cafwyd neges amserol ganddo ond fe'n dwysbigwyd ganddo, 'Tra rydym ni yng nghanol ein digon mae 'na dri plentyn yn marw mewn un munud, bob dydd, o eisiau bwyd'.

Diolch i bawb ddaeth i'r oedfa arbennig hon yn un teulu mawr — hen, canol oed a'r ifanc — a chymryd y cyfle i ddatgan ein diolch i Dduw am ei ddaioni inni, ac am Ei Fab, Iesu Grist.

Dangosodd yr oedfa werthfawr hon ei bod yn bosibl cael adfywiad ysbrydol eto yng Nghymru ond inni gael cefnogaeth cartrefi Cymru. Beth amdani gartrefi bro'r Eco. Na ddigalonwn. MEGAN HUMPHREYS



Eifion Williams o Lanffynnon, Llanrug, a fu'n arbennig o lwyddiannus yng Ngala Nofio Gogledd Cymru yn ddiweddar. Enillodd fedal aur (breast Stroke) ac un arian (free style) yn ogystal â dwy ruban (backstroke a freestyle).

Y STORFA LLANRUG

(Richard a Meirwen Williams)

Ffôn: C'fon 672790

Ar agor bob dydd o'r wythnos at eich gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am ddanfôn archeb i'ch cartref yn ardal Llanrug

GWASANAETH TACSI HURIO BWS MINI CABS LLANRUG

Ffôn: Caernarfon

675951

Prisiau Cystadleuol — Gwaith Contract — Pell ac Agos

O'r Bwthyn i'r Palas

(parhad o'r dudalen gefn)

O'r herwydd mae llai yn trafaelio yno ar y Sadwrn. Ceir rhai yn mynychu gemau lleol, ac yn rhoddi eu cefnogaeth i'r timau mawr trwy wyllo'r lloeren ar y Sul neu nos Lun. Gobeithio y pery hynny.

Yna'r llwyfan mawr. Cefais fy nghalonogi gan berfformiad Cymru yn erbyn yr Almaen — a hynny heb rhai o'r hen bennau. Yn sicr, mae Bobby Gould wedi cydio yn nychymyg y cefnogwyr oherwydd ei agwedd iach at drefniadaeth. Y mae dawn y 'gŵr cyfryngau' yn elfen gref o'i bersonoliaeth. Y mae'r broblem 'hen bennau' yma am rygnu ymlaen. A yw eu cynnwys yn llesteirio y math o gêm y gellir ei chwarae? Ni ellwch guro profiad yw'r gwrthdadau. Pwy sydd i gymeryd eu lle? Cefais y teimlad fod y cefnogwyr yn fwy ffyddiog yn agwedd Gould at y gwaith.

Un gŵyn wrth gwrs oedd lleoliad y gêm. Fe es â 50 o blant o'r ysgol i'r gêm, yn gadael am 1 o'r gloch y pŵn a chyrraedd adref 3 o'r gloch y bore. Roedd y gost yn rhesymol ond costus iawn fuaasai'r fath daith os buasai'n rhaid aros noson. Rwy'n poeni am y gorganoli yng Nghaerdydd. Rhaid chwarae'r

Clwb Pêl-droed Deiniolen 1995-96



gemau mawr yno, ond yn sicr, ni ddylid anwybyddu'r Cae Ras ar gyfer gemau rhyngwladol chwaith. Rhaid cynnal y syniad o Gymru unedig — rhywbeth mae Clwb Criced Morgannwg gwaetha'r modd am ei ddiddymu, gyda llaw!

Ni allaf orffen heb roddi gofod i gampau anhygoel tîm rygbi'r gynghrair Cymru. Dyma ddreigiau yng ngwir ystyr y gair. Fe gwbwlheis yr erthygl cyn canlyniad y gêm yn erbyn Lloegr. Beth bynnag y

canlyniad, cawsom wefr o edmygu dawn y criw yma. Maent yn sicr wedi rhoi tân ym mol y ddraig! Os yw'r nifer o grysau Cymru a welir yn lleol yn adlewyrchu'r parch ac edmygedd, yna mae Jonathan a'i griw wedi llwyddo. Erys un cwestiwn sylfaenol felly — yn yr oes

o uno, pa athro ymarfer corff fydd ddigon dewr i gyflwyno y gêm 13-bob-ochr yn ei ysgol. Onid rygbi ac nid rygbi'r undeb sydd yn y cwrwllwm cenedlaethol?

Tipyn o gnoi cil i chwi y tro yma gobeithio, a beth amdani, y tri brif glwb, beth am ymateg i'r cynnig.

DEINIOLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: 871259

Enillwyr Clwb Cant Plaid Cymru am fis Medi — £10: Mr Owen Thomas, Mona House; £5: Y Cynghorydd Len Jones, 11 Hafod Olau. **Mis Hydref** — £10: Miss Margaret Jane Jones, Foel, Dinorwig; £5: Miss Mair Rees Jones, Tan y Caerau.

Clwb Elidir: Cyfarfu'r aelodau yn y Caban ddydd Mawrth, 19 Medi, dan lywyddiaeth Mrs Jane Jones. Cafwyd cwis o dan ofal y llywydd a Mrs Eirlys Williams yn cadw'r cyfrif, a thîm 'B' a orful Rhoddwyd y te a'r raffl gan Mrs Eurwen Roberts a Mrs Jennie Williams. Enillwyd y wobwr gan Mrs Dolly Brown.

Cyfarfu'r Clwb eto, ar 3 Hydref, pryd y croesawyd y wraig wadd, Mrs Valmai Jones, Cynghorydd Hybu Iechyd yr Henoed. Diolchwyd iddi gan Miss Jean Moeller a Mrs Jane Eirlys Williams. Rhoddwyd y te gan Mrs Megan P. Morris a Mrs Sally Lewis ac enillwyd y raffl gan Mrs Mair Lloyd Owen.

Cydymdeimlwyd â theulu y

ddiweddar Mrs M. E. Jones, Ty'n y Fawnog, Dinorwig, mam a modryb annwyl iawn.

Gofal yr Henoed (Age Concern): Diolch i athrawon a disgyblion Ysgol Gwaun Gynfi am y ffrwythau a dderbyniasom yn ystod tymor y Diolchgarwch. Hyfryd iawn. Diolch yn fawr iawn ichwi.

Diolch: Dymuna Cheryl ac Ieuan, 69 Pentre Helen, ddiolch i bawb am yr anrhegion a'r llw cardiau ar enedigaeth eu mab, Daniel Lee.

Priodas: Yng nghapel Llanefydd, Clwyd, ddydd Sadwrn, Medi 30, priodwyd Angharad Williams, merch David a'r ddiweddar Nest Williams, Pen Bryn Llan, Llanefydd a Charles Roberts, mab Gwilym ac Enid Roberts, Tŷ Newydd, Llanellian. Byddant yn ymgyrtrefu yn 29 Stryd Newydd, Deiniolen. Llonyfarchiadau a phob dymuniad da iddynt yn eu bywyd priodasol oddi wrth y ddau deulu.

Cefnywaun ac Ebeneser: Cynhal-



A fydd y rhain, ryw ddydd, yn nhîm cyntaf Deiniolen?

iwyd cyfarfodydd Diolchgarwch y ddwy eglwys ddydd Sul, Hydref 15. Cafwyd cyfarfod undebol yn y bore, gyda phlant yr Ysgol Sul a rhai o'r aelodau yn cymryd rhan ynddi. Cynhaliwyd oedfaon ar wahân gyda'r nos, gydag aelodau ifanc yn cymryd rhan yng Nghefnywaun a'r chwiorydd yn cymryd rhan yn Ebeneser.

Cyfarfod Plant: Mae'r Cyfarfod Plant wedi ailddechrau erbyn hyn yn festri Ebeneser. Caiff ei gynnal yn union wedi i'r plant ddod o'r ysgol ar bnawn lau. Mae croeso i unrhyw blentyn oed ysgol gynradd ddod yno. **Y Gymdeithas Undebol:** Yn y cyfarfod a gynhaliwyd nos Lun,

Hydref 23, cafwyd cwis diddorol yng ngofal Mrs Margaret Cynfi Griffith.

PLAID CYMRU

FFAIR NADOLIG

yn YSGOL GWAUN GYNFI

NOS WENER, 1 RHAGFYR

am 7 o'r gloch

BYDD SIÔN CORN YN GALW!

Mynediad:

Oedolion 40c. (plant 15c)

W.J. GRIFFITH

PLYMAR A GOSODWR

GWRES CANOLOG

Pant Tirlon, Llanrug

Ffôn: Caernarfon 673248

Gosodwyr

Nwy

Cofrestredig

Corgi



Aelod o'r
Association of
Mechanical
Services
Contractors

Dim un dasg rhy fychan
Dim un dasg rhy fawr

Gwesty Dolbadarn

LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff.

Wavell Roberts

CIGYDD

London House

LLANRUG

Ffôn: C'fon 673574

PEN CIGYDD Y FRO


Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref, cigoedd parod
i'w bwyta

Archebion ar gyfer y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU

DEWCH ATOM NI!

CROESAIR TACHWEDD




AR DRAWS

1. Ffug bêl y Cymry, heb ddechrau na diwedd i'r ryc; wel, felly mae'n ymddangos beth bynnag (10)
6. Amser ymddygiad egniol (4)
9. Y cyfeiriad y tuedda'r haul tuag ato (10)
10. Ffrwyth croesi afal coch efo lemon? (4)
12. Nifer o anifeiliaid o'r un rhyw gyda'i gilydd (6)
13. Cosbau a ddioddefir i ddangos edifeirwch (8)
15. Cardiau bychain ac arnynt wybodaeth cyfrifiadurol (12)
18. Bugeiliaid benywaidd (12)
21. Gary y Ddol sy'n goruchwyllo (8)
22. Un nad oes iddo dalent (6)
24. Rhannu o goeden neu o dai labrwy (4)
25. Rhai sydd â chymedroldeb ynglŷn â diodydd meddwol (10)
26. Yn gwneud fel y gofynnir (4)
27. Archeb yn lein taid, os cyfnewidir L y Sais am D y dysgwr o Gymro (10)

I LAWR

1. Peidio a gwneud rhywbeth (6)
2. Un sydd â'i goesau'n rhwbio yn erbyn ei gilydd (6)
3. Yr ansawdd o fod â diffyg (12)
4. Llinyn Neli? (4)
5. Coes Lili? (10)
7. Traddodi a gwneud i Dai lithro (8)
8. Gweithred un sy'n cyflawni (8)
11. Cyfrol o farddoniaeth gan fardd o'r chweched ganrif (4,8)
14. Rhai sy'n canu math o offeryn cerdd (10)
16. O law Maud y daw'r canmol-iaethau (8)
17. 'Mae _____'r cread er dy fwyn,' ar dôn Pantyfedwen (8)
19. Ci mawr yn creu niwed (6)
20. O Fryn Du y daw'r rhai sydd o'r un meddwl (6)
23. Trallod (4)



a'r 'rhwyd sy'n cau am J. E. Williams'.

Roedd **SWND** (tywod) a **NWYD** hefyd yn boblogaidd; **GWAD** a **LLWYD** (Llwyd o'r Bryn a'r Brodyr Llwydion).

Rwy'n cael trafferth dewis rhwng: 'Yr hyn a welir ar gar Cymro sy'n dysgu' (DWY D (3,1)) o waith Mrs Mary Davies, Waunfawr; a 'Mae'n andros o waith ei werthu i Arab' (SWND) gan Mr E. W. Pritchard, Ty'n y Caeau, Garndolbenmaen. Gan mai Mrs Davies oedd enillydd mis Medi, i'r Garn felly yr â gwobr mis Hydref. Llongyfarchiadau i chi, Mr Pritchard.

Tasg ychydig bach yn wahanol y mis yma. Ar ôl ichi ddarganfod yr ateb i 7 i lawr — gair wyth llythyren — rwyf am i chi lunio cliw gwahanol iddo — yr un gair, ond cliw arall, a'i yrru, ynghyd â'r croesair i Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun, Caernarfon, erbyn 23 Tachwedd, os gwelwch yn dda.

Dyddiadur y Mis

TACHWEDD

2. **Iau** **DEINIOLEN:** Cyfarfod y Chwirydd yn Ebeneser am 7.
4. **Sadwrn** **CAERNARFON:** Ysgol Sul Arfon yn dathlu yn Salem.
6. **Llun** **LLANRUG:** Noson Tân Gwylt dan nawdd yr Ysgol Gynradd.
7. **Mawrth** **LLANBERIS:** Y Gyfeillach yng Nghapel Jerusalem am 2.
10. **Gwener** **PENISARWAUN:** Cyngor Cymdeithas Llanddeiniolen am 7 o'r gloch yn yr Ystafell Gymunedol. Cangen yr Urdd yn cyfarfod yn yr Ysgol Gymunedol.
13. **Llun** **BETHEL:** Noson o ddawnsio gwerin a disgo am 6.30 o'r gloch yn y Neuadd Goffa.
14. **Mawrth** **DEINIOLEN:** Cyfarfod o'r Cyngor Eglwys.
18. **Sadwrn** **PENISARWAUN:** Yr Urdd yn cyfarfod.
20. **Llun** **LLANRUG:** Merched y Wawr — arddangosfa o addurniadau Nadolig.
21. **Mawrth** **BETHEL:** Eisteddfod Bentref am 1 a 6 o'r gloch yn y Neuadd Goffa.
22. **Mercher** **WAUNFAWR:** Y Gymdeithas Lenyddol. Sgwrs gan Alwyn Evans, Caernarfon.
24. **Gwener** **DEINIOLEN:** Merched y Wawr. Sgwrs gan Karen Jones.
27. **Llun** **BETHEL:** Y Gymdeithas Lenyddol. Darlith gan Dr Gerwyn Williams.
28. **Mawrth** **LLANRUG:** Rhaglen deyrnged i Wil Sam yn Ysgol Brynrefail.

MWY O NEWYDDION LLANBERIS

Undeb y Mamau: Pnawn dydd Mercher, 3 Hydref, cafwyd amser hynod o ddiddorol yng nghwmni Mr Bob Lloyd. Esboniodd yn fanwl y llun adnabyddus 'Salem', a chafwyd hanes y capel a phlwyfolion ardal Llanbedr, Harlech. Cymerwyd y rhan ddefosiynol gan Mrs Dilys Phillips. Croesawyd dwy aelod yn ôl i'r gangen. Diolchwyd i Mr Lloyd a'r merched a ofalai am y te, sef Mrs Clara Roberts a Mrs Betty Humphreys, gan Mrs Audrey Evans ac eiliwyd y diolch gan Mrs Muriel Morris. Enillwyd y raffl gan Mr Bob Lloyd a Mrs Hilda Wyn Williams.

Diolch: Diolchir i Miss Morfydd Williams, Gwenallt, Stryd Newton, Llanberis, am cael benthg y llun o Gôr Llanberis a ymddangosodd yn rhifyn mis Hydref o'r Eco.

MWY O NEWYDDION DEINIOLEN

Y Seindorf: Canlyniad y raffl flynyddol oedd — £125: Arwyn, Carmel; £100: Moi Evans, Caernarfon; £75: Mair, Coleg Normal, Bangor; £50: Ieuan Morris, Deiniolen.

Carem ddiolch i bawb a brynodd docyn raffl ac am y gefnogaeth a gawsom gan yr ardalwyr yn y Noson Goffi lwyddiannus iawn a gynhaliwyd.

ER COF AM Goronwy Owen Glyn Roberts: gŵr a ffrind — efo hiraeth a chariad. Sarah. Bryn Eryri, 7 Stryd Warden, Llanberis.

CARNIFAL LLANBERIS

Cynhelir pwyllgor blynyddol y Carnifal ar 13 Tachwedd am 7 o'r gloch yn Angorfa, Llanberis. Apelir am aelodau newydd i'r pwyllgor. Croeso cynnes i bawb.

RHODDION

£20: Cecil, Ellen a Gilbert, er cof am eu hannwyl fam.

£10: Sarah P. Roberts, Bryn Eryri, Stryd Warden, Llanberis, er cof am ei gŵr Goronwy Owen Glyn Roberts; Ellen Wyn Jones, Ty'n y Fawnog, Dinorwig; Mrs G. M. Jones, Y Dalar Deg, Llanrug.

£5: Iestyn a Brenda Jones, Bryn Gloch, Betws Garmon; Dic Parry, Tawelfa, Penisarwaun; Cheryl ac Ieuan, 69 Pentre Helen, Deiniolen; Di-enw, Waunfawr; C. Hellfeld, Melin Cwawia, Llanrug; Cecil a Dilys Williams, 19 Hafan Elan, Llanrug; Goronwy Jones, Glan Gors, Bethel.

£3: Mr a Mrs R. Parry, 7 Hafan Elan, Llanrug; P. ac E. Roberts, Llanberis.

£2: Delyth ac Arfon, 16 Dôl Afon, Cwm-y-glo.

CALENDR LLANRUG 1996

Calendr newydd sbon yn cynnwys hen luniau o'r ardal.

Llinell wag ar gyfer pob dyddiad i sgwennu mân nodiadau.

Dwyieithog.

Pris: £2.50

Yr elw tuag at Gronfa Canolfan Llanrug

Cysylltwch â:

Dafydd Whiteside Thomas
Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon
(01286) 673515

DIOLCH

Dymuna Dic Parry (PT) ddiolch o galon i bawb, yn gyd-athrawon, staff ategol, ffrindiau, llywodraethwyr, a'r llu disgyblion, am eu dymuniadau da ar ei ymddeoliad. Braint a phleser iddo fu gweithio mewn ysgol mor hapus a chyda pobl ifanc mor addfwyn a chyfeillgar. Dymunir pob dymuniad da i Ysgol Brynrefail i'r dyfodol.

CHWARAEON

O'r Bwthyn i'r Palas

O bnawn Sadwrn gwlyb ar faes y Bwthyn, Deiniolen (gyda hot-dog a phaned fendigedig) i foethusrwydd y Stadiwm Cenedlaethol yng Nghaerdydd. Dyna sbectrwrm y byd pêl-droed y bûm yn troi ynddo yn ddiweddar. Fy mwriad oedd ceisio sgwennu erthygl yn adlewyrchu pêl-droed Cymru o'i gwreiddiau i'r lefel uchaf. A oes pethau yn gyffredin? Beth sydd yn cynhyrfu? Nodaf ar y cychwyn rai pethau ddaeth i'm meddwl wrth deithio i'r gêm a'u gwyllo.

Roedd y croeso yn Neiniolen i'w ddisgwyl ac Alun Wyn a'i griw mor weithgar ag erioed. Mountain Rangers oedd yr ymwelwyr ym Mhrif Gwpan yr Arfordir. Roedd y Rangers wedi cyrraedd gyda kit newydd ond bod hwnnw'n socian — a chyda 10 dyn. Dim problem, danfonwyd rhywun i dŷ cyfagos i nôl ail git Llanbabo, ac ymlaen â'r gêm. 'Da'n ni'n siwr o ennill heddiw, mae Llanbabo yn erbyn Llanbabs,' meddai un hwyr ddyfodiad i'r cae. Oes, mae hiwmor yn y gwreiddiau. Nid wyf wedi gweld digon o gêm cynghair Gwynedd i roddi barn ar safon y gêm ond o gofio'r profiad oedd ar y cae, roeddwn yn disgwyl gweld mwy o basio, yn hytrach na'r bêl hir bondigrybwyll. Diddorol oedd gweld gallu yr hen bennau i greu lle iddynt eu hunain ond gweddill y tîm heb y gallu neu'r weledigaeth i dorri ffwrdd o'r gic hir. Anodd newid castiau blyneddod.

Yr un peth yn fy nharo ynglŷn â'r ddau dîm oedd oedran y chwaraewyr. O'r 24 chwaraewr a welwyd ar y cae, dim ond dau oedd o dan 20 oed. Roedd y mwyafrif llethol o gwmpas y 30 oed a throsodd. O'r hyn a ddeallaf mae hyn yn wir am nifer o dimau'r gynghair. Mae rhai clybiau yn yr ardal yn ceisio meithrin yr ieuencid yn eu timau yng nghyngair Sain. Onid gwell fuasai i rai o'r hen benau symud i dim Cynghair Sain a rhoddi o'u profiad i'r ieuencid? O ble daw'r chwaraewyr i'r timau yng nghyngair Gwynedd, felly meddech chi? Digon teg, ac onid teg gofyn erbyn hyn a oes gormod o dimau mewn ardal cymharol fechan? Neu â rhoi'r cwestiwn mewn ffordd arall a oes digon o chwaraewyr i lenwi y timau hynny yn lleol? Y mae'r erthygl am dalentau Ysgol Brynrefail yn awgrymu fod y 'conveyor belt' yn ddigon iach ar gyfer y dyfodol.

Y cwestiwn sylfaenol yw, a yw'r stwythr gan y clybiau lleol i gynnal y rhediad esmwyth i'w haelodau o 9 oed i'r tîm hŷn. Mae un cam gwag amlwg yn y broses, a hynny yw'r oedran 16 i 18. Dyma'r oedran tyngedfenol, ble mae'n ymddangos fod diddordeb nifer o ieuencid yn gwanhau. Y mae'n amser i'r awdurdodau lleol edrych yn fanwl ar yr oedran yma, ac efallai ailsefydlu cynghrair ieuencid. Pwy sydd am ei rhedeg hi? O ble daw'r arian? Oes yna gaeau? Gaf i'w wneud awgrym yn lleol! Bod y tri prif glwb, Llanberis, Deiniolen a Llanrug (ddim mewn unrhyw drefn gyda llaw) yn dod at ei gilydd a threfnu cystadleuaeth rhwng y tri tîm i dimau rhwng 16 ac 18. Buasai'r gemau yn cael eu chwarae ar gae pob tywydd Brynrefail, a buasai'r tri clwb rhyngddynt yn wynebu unrhyw gost (na fuasai'n ormodol) i gynnal y gemau. Gallai pob tîm wynebu eu

gilydd ddwywaith, cyfanswm o 6 gêm. Gwelaf hyn yn gam positif ymlaen mewn cydweithrediad rhwng y clybiau mewn ymgais i gynnal diddordeb yr oedran yma. Rwy'n sicr y gellid cael noddwr lleol, efallai yr Eco, i gyflwyno tlws (peth anghenrheidiol yn yr oes yma, mae'n ymddangos).

Braf sylwi fod torfeydd y gemau lleol i weld ar gynnydd, yn enwedig yn y Konica. Mae dychweliad y Cofis i'r gorlan wedi bod yn gam pwysig i'r gêm yn lleol. Teimlaf fod patrwm o wyllo pêl-droed yn datblygu. Nid yw mor hawdd i gael tocynnau i Anfield ac Old Trafford erbyn hyn.

(Parhad ar dudalen 18)



Ein Golygydd Chwaraeon yn y Stadiwm Cenedlaethol.

Dringo'r Ysgol

Mae un traddodiad yn cael ei gynnal ers ymadawiad Dic Parry o Frynrefail. Mae Aelwen Jones, y pennaeth adran yn anfon adroddiad cynhwysfawr bob mis o weithgareddau chwaraeon yr ysgol. Gyda llaw, daw'r wybodaeth ar daflenni gyda logo Eco'r Ysgol arnynt. Da dêl!

Y mae'r tymor presennol yn dymor y treialon ar gyfer timau ardal a sirol yn y prif gampau. Mae'r teialon yma yn bwysig gan eu bod yn gam cyntaf ar yr ysgol sy'n arwain at gap cenedlaethol. Mae'n braf nodi eleni eto bod nifer o ddisgyblion yr ysgol wedi cymerid y cam cyntaf hwn.

Ym myd yr hoci llwyddodd Iona Williams i ennill lle yng ngharfan — 16 Gwynedd. Roedd mwy o lwyddiant i'r ysgol yng ngharfan — 18 hoci Gwynedd gyda Cerys Parry, Claire Morris, Nicola Gibbins, Manon Williams, Catrin Jones a Rhian Green wedi eu dewis.

Syndod i mi yw nad oes mwy o fechgyn yn chwarae hoci. Mae'n gêm gyflym a chorfforol — elfennau ddylsa'i apelio at fechgyn. Rwy'n siwr fod mwy o enethod yn chwarae pêl-droed yng Ngwynedd nag sydd o fechgyn yn chwarae hoci!

Bydd Iona a Llinos Williams, Nia

Watkin Jones a Cathryn McKay yn cynrychioli tîm — 16 hoci De Arfon. Yn amlwg mae'r safon yn uchel yn yr ysgol ac fe fydd cryn edrych ymlaen at gael defnyddio'r cae pob tywydd.

Cafodd Nia Watkin Jones ei dewis hefyd ar gyfer carfan — 16 Pêl-rwyd Gwynedd.

Mae'r bechgyn hefyd wedi cynnal y traddodiad. Mae Eifion Jones yn gyfarwydd iawn i ni yn yr ardal, unwaith eto y mae wedi cael lle yn nhîm — 15 Ysgolion Cymru.

Mae Owain Machno Lloyd wedi cynrychioli tîm — 16 Gwynedd eisoes eleni.

Dros y ddau dymor neu dri diwethaf bu cryn sgleir ar berfformiadau timau — 13 a — 15 Arfon. Mae bechgyn ardal yr Eco yn asgwrn cefn soled i'r carfanau hyn, ac eleni eto mae cynrychiolaeth dda.

Mae Lee Hughes, Rory O'Donnell, Christy Boothroyd, Martin Willis, David Peters, ac Alwyn Jones wedi cynrychioli y tîm — 15.

Mae Geraint Owen, Robin Gardiner, Gareth Jones a Mrk C. Williams wedi cynrychioli y tîm — 13.

Pam rhestru yr holl enwau yma meddech chi? Rwy'n teimlo fod hyn yn bwysig oherwydd fe fydd yn bwysig sylwi mewn 5 neu 10 mlynedd pa gyfraniad fydd rhai o'r

Ras Antur Waunfawr 1995



Enillwyr y ras hwyl: Ian Roberts (3ydd), Huw Jones (1af), a Caerwyn Williams (2il).

Cynhaliwyd degfed ras flynyddol Antur Waunfawr ddydd Sadwrn, 14 Hydref 1995.

Cafwyd ugain yn cystadlu yn y ras 10k ac unwaith eto yr enillydd oedd Tegid Roberts (Eryri) mewn amser o 38 munud 38 eiliad. Dyma'r seithfed tro i

Tegid ennill y ras hon.

Yn ail roedd Phil Llan Jones (Eryri) mewn 39 munud 4 eiliad; ac yn drydydd roedd Alan T. Williams (Eryri) mewn 42 munud 42 eiliad.

Enillydd dros 50 oed oedd Tom Hildge (Eryri) mewn 48 munud 1 eiliad; ac enillydd dros 60 oed oedd R. T. Jones (Eryri) mewn 58 munud 40 eiliad. Yr unig ferch yn y ras oedd Maggie Fookes (Eryri) a orffennodd mewn 59 munud 24 eiliad.

Rhedodd dros gant yn y Ras Hwyl dwy filltir, gyda Huw Jones (Eryri) yn dod yn gyntaf mewn 11 munud 34 eiliad. Elin Harding oedd y ferch gyntaf mewn 15 munud 49 eiliad.

Aeth Cwpan B a K Williams, Llanrug, eleni eto i Antur Waunfawr gyda thîm o chwech.

Dymuna'r cwmni ddiolch i bawb am eu cefnogaeth.

(Rhagor o luniau ar dudalen 10)



Nia Watkin Jones.

enwau yma yn ei wneud i bêl-droed yr ardal. A fydd tîm hoci lleol? O edrych trwy ôlryfynau yr Eco gwelir enwau Gavin a Malcolm Allen, Mark Lloyd Williams a Colin Jones fel rhai 'addawol' yn eu campau. Dyma rai i'r criw presennol geisio eu hefelychu.

I orffen, rhaid sôn am Caitlin Wroe. Unwaith eto, Caitlin yw pencampwraig sgîo Cymru. Mae wedi derbyn nawdd gan y Sports Aid Foundation i barhau â'i gyrfa yn y gamp. Ym mis Rhagfyr bydd yn teithio i Vermont yn y Unol Daleithiau i dderbyn pythefnos o hyfforddiant.